Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Rhestr o ffigurau 4

Gan y Dirprwy Weinidog 5

Cyflwyniad 7

Beth sydd wedi newid ers WelTAG 2017? 7
Strwythur y ddogfen hon 8
WelTAG ar tudalen 9

Adran 1: Cefndir a chyd-destun 11

Beth yw WelTAG? 12
Pryd dylai WelTAG gael ei ddefnyddio? 15
TAG a WelTAG 16
Dull cymesur 17
WelTAG a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 18
Sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio WelTAG i asesu gwerth am arian 20
WelTAG a'r pum ffordd o weithio 21
WelTAG a datgarboneiddio 21
Newid ymddygiad 22

Adran 2: Camau cynllunio WelTAG 23

Cam 0 Achos dros newid (asesiad strategol) 25
Cwmpasu 27
Cam 1 Achos amlinellol strategol 28
WelTAG ar gyfer opsiynau a bennwyd ymlaen llaw 30
Cam 2 Achos busnes amlinellol 31
Cam 3 Achos busnes 32
Cam 4 Cyflawni 33
Cam 5 Monitro a gwerthuso 34
Mynd yn ôl gam 35

Adran 3: Pum dimensiwn achos busnes WelTAG 36

Disgrifiad o'r prosiect 37
Cydweddiad strategol 38
Llesiant 39
Fforddiadwyedd 40
Cyflawnadwyedd 42
Rheolaeth 44

Adran 4: Arfarniad llesiant integredig 46

Cynnwys arfarniad llesiant integredig 48
Llwybr Newydd: fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 50
Defnyddio cymarebau cost a budd yng Nghymru 54
Rhagweld y dyfodol 55
Amseriad 55

Adran 5: Ymgysylltu â phobl 57

Y cynllun ymgysylltu 59
Swyddogaethau a chyfrifoldebau WelTAG 61
Y pum ffordd o weithio 63

Adran 6: WelTAG ar waith 64

Hyd yr adroddiadau 65
WelTAG byr, safonol a manwl 65
Yr opsiwn gwneud dim byd (neu wneud y lleiafswm) 68
WelTAG ar gyfer rhaglenni a pholisïau 68
Dylunio ac arfarnu 69
Adolygiadau porth a sesiynau gwirio 72
Data ar gael gan Trafnidiaeth Cymru 73

Adran 7: WelTAG a chynllunio defnydd tir 74

Trafnidiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru 75
WelTAG ac asesiadau effaith statudol 77
Materion cynllunio defnydd tir mewn astudiaethau WelTAG 79
Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol 80

Adran 8: WelTAG ar gyfer dulliau trafnidiaeth penodol 81

WelTAG a theithio llesol 82
WelTAG ar gyfer rhaglenni a phrosiectau bysiau yng Nghymru 85
WelTAG ar gyfer rhaglenni a phrosiectau rheilffyrdd yng Nghymru 86
WelTAG a rhaglenni a phrosiectau ffyrdd 87
Ystyriaethau allweddol ar gyfer cynlluniau ffyrdd 88
WelTAG ar gyfer rhaglenni cynnal a chadw 88

Termau defnyddiol a thalfyriadau 89

Deddfwriaeth a pholisïau perthnasol yng Nghymru 95

Darllen pellach 98

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Targedau trafnidiaeth o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net 6
Ffigur 2: WelTAG ar dudalen 9
Ffigur 3: Yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy 10
Ffigur 4: Tair elfen WelTAG – cynllunio, achos busnes ac arfarniad llesiant integredig 13
Ffigur 5: Cymhariaeth rhwng yr achos busnes llawn yn TAG a WelTAG 16
Ffigur 6: Gweledigaeth, blaenoriaethau ac uchelgeisiau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 19
Ffigur 7: Arfarnu llesiant yn WelTAG 49
Ffigur 8: Fframwaith fonitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 51
Ffigur 9: Sut y dylid asesu llesiant ar bob cam WelTAG 56
Ffigur 10: WelTAG byr, WelTAG safonol a WelTAG manwl 66
Ffigur 11: WelTAG a chynlluniau gwaith eraill 70
Ffigur 12: Aliniad rhwng WelTAG a chynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru, PACE a GRIP 86

© Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49221, ISBN 978-1-83577-485-4,
Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Gan y Dirprwy Weinidog

Croeso i fersiwn newydd Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). WelTAG yw ein harweiniad ar gynllunio ac arfarnu ymyriadau trafnidiaeth. Mae'n berthnasol i raglenni a pholisïau trafnidiaeth strategol, yn ogystal â phrosiectau trafnidiaeth unigol.

Mae'r fersiwn diweddaraf hwn o WelTAG yn rhan o ddull newydd o ymdrin â thrafnidiaeth yng Nghymru sy'n dechrau gyda Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 ac sy'n llifo drwodd i bopeth a wnawn, gan gynnwys ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a'n gwaith gyda'r cydbwyllgorau corfforedig ar gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

Mae angen dull newydd arnom oherwydd ychydig iawn o amser sydd gennym ar ôl i newid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn ymddwyn. Os na fyddwn yn gwneud pethau'n wahanol nawr, ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Trafnidiaeth yw un o'r ffynonellau mwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru ac felly lleihau allyriadau trafnidiaeth yw un o'r materion allweddol ar gyfer Cymru Sero Net, ein cynllun datgarboneiddio.

Dyna pam y gosododd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru bolisïau newydd ar gyfer trafnidiaeth a ategwyd gan dargedau llym ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cynyddu cyfran y teithiau a wneir gan drafnidiaeth gynaliadwy. Mae Cymru Sero Net yn gosod targedau hyd yn oed yn fwy heriol, gyda'r nod o gynyddu cyfran y teithiau ar drafnidiaeth gynaliadwy.

Rhaid inni weithredu nawr os ydym am gyrraedd y nodau hyn. Nid darparu ffyrdd yw'r ateb rhagosodedig i bob mater trafnidiaeth bellach. Ac ni allwn ddibynnu ar dechnoleg newydd. Ni fydd cerbydau trydan yn unig yn cyflawni'r newid sydd ei angen arnom. Yn hytrach, mae angen inni fuddsoddi mewn teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae arnom angen mwy o bobl yn defnyddio opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy a llai o bobl yn defnyddio eu ceir. Mae angen inni gludo llwythi yn fwy cynaliadwy. Ac mae angen inni wneud yn siŵr bod gennym ddigon o adnoddau i gynnal ac uwchraddio ein seilwaith presennol i ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol.

Bydd y diweddariad hwn i WelTAG yn helpu i gyflawni'r nodau hyn drwy newid y ffordd rydym yn cynllunio ac yn ariannu rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth. Mae'n golygu symud o ddim ond cyfrifo buddion i ddarparu buddion.

Mae'r canllawiau hyn yn cyd-fynd yn agos â'n huchelgeisiau hirdymor ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru, a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Yn lle dim ond cyfrifo costau a buddion mewn termau ariannol, mae WelTAG yn dylunio llesiant a datgarboneiddio i fod yn rhan o'r rhaglen neu'r prosiect o'r cychwyn cyntaf, gan ddefnyddio ein fframwaith arfarniad llesiant integredig newydd.

Yn anad dim, mae WelTAG yn ymwneud â sut yr ydym yn sicrhau gwerth am arian mewn gwariant cyhoeddus. Dim ond prosiectau y gellir eu cyflawni sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol, sy'n sicrhau llesiant, ac sy'n fforddiadwy ac wedi'u rheoli'n dda y gallwn eu hariannu. Mae WelTAG yn ein helpu i wneud hynny.

Lee Waters MS
Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd

Ffigur 1: Targedau trafnidiaeth o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net

Targedau trafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru				
Targedau trafnidiaeth	**Llinell sylfaen 2019**	**2025**	**2030**	**2040**
Targed newid dulliau teithio (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru)	**32%**			**45%** o deithiau trwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus
Updated modal shift targets (Net Zero Wales)	**32%** o deithiau trwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus	**35%** o deithiau trwy ddulliau cynaliadwy	**39%** o deithiau trwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus	
	27% teithio llesol a **5%** trafnidiaeth gyhoeddus		**33%** teithio llesol a **7%** trafnidiaeth gyhoeddus[1]	**35%** teithio llesol ac **13%** trafnidiaeth gyhoeddus
Allyriadau trafnidiaeth teithwyr (Cymru Sero Net)	**3.8 $MtCO_2e$**	Lleihau allyriadau o drafnidiaeth teithwyr **22%** yn **2025** o lefelau 2019		
Gostyngiadau milltiroedd ceir (Cymru Sero Net)	**10,186** cilometr cerbyd y pen		Lleihau milltiroedd car a deithiwyd fesul pen 10% erbyn **2030** o lefelau 2019	
Effeithlonrwydd cludo llwythi (Cymru Sero Net)	**2.1 $MtCO_2e$**	Cynyddu effeithlonrwydd cludo llwythi ar y ffyrdd, y rheilffyrdd a'r môr **4%** o lefelau 2019		
Fflyd bysiau	Heb ei nodi	Fflyd TrawsCymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn **2026**	Y **50%** gwaethaf i fod yn ddi-allyriadau erbyn **2028**	Di-allyriadau erbyn **2035**
Tacsis a cherbydau hurio preifat	Heb ei nodi		Di-allyriadau erbyn **2028**	

[1] Fel y nodir yn Cymru Sero Net, gan dalfyrru i'r % agosaf.

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un sy'n cynllunio neu'n rheoli polisi, prosiect neu raglen drafnidiaeth yng Nghymru. Byddant yn eich helpu i gynllunio eich prosiect a dangos sut y bydd yn sicrhau gwerth am arian.

RHAID i chi ddefnyddio'r diweddariad hwn o WelTAG os ydych eisiau cyllid trafnidiaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw brosiectau, polisïau a rhaglenni.

Mae WelTAG yn seiliedig ar Lyfr Gwyrdd Trysorlys EF, sy'n esbonio sut i sicrhau gwerth am arian ym mhob un o bolisïau, rhaglenni a phrosiectau'r llywodraeth. Mae WelTAG yn cymhwyso'r egwyddorion hynny i fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru.

Mae WelTAG yn seiliedig ar Lyfr Gwyrdd Trysorlys EF, sy'n esbonio sut i sicrhau gwerth am arian ym mhob un o bolisïau, rhaglenni a phrosiectau'r llywodraeth. Mae WelTAG yn cymhwyso'r egwyddorion hynny i fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghymru.

Beth sydd wedi newid ers WelTAG 2017?

Cyhoeddwyd y canllawiau arfarnu trafnidiaeth pwrpasol cyntaf ar gyfer Cymru yn 2008 a chawsant eu diweddaru yn 2017. Mae'r diweddariad hwn i WelTAG yn defnyddio'r un dull sylfaenol â fersiynau cynharach ond mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r blaenoriaethau newydd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, adborth defnyddwyr, ac ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Y pum prif newid yw fel a ganlyn:

1. Cyflwyno gwahanol **gategorïau o WelTAG** (byr, safonol, manwl), gan sicrhau bod dull cymesur yn cael ei ddefnyddio ym mhob achos.
2. Cyflwyno **Achos dros Newid Cam 0** ar gyfer pob polisi, rhaglen a phrosiect trafnidiaeth. Dylai hyn gael ei wneud yn fewnol ac nid gan ymgynghorwyr a dylai gael ei ategu gan adroddiad cwmpasu. Mae'r diweddariad hwn yn cyd-fynd â cham asesu strategol achos busnes Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU.
3. Mae dimensiwn economaidd yr achos busnes wedi'i ailenwi yn y **dimensiwn llesiant.**
4. Mae'r adroddiad arfarniad integredig yn cael ei ailenwi'n **arfarniad llesiant integredig.** Mae'r fethodoleg ddiwygiedig yn ei halinio ag uchelgeisiau llesiant Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
5. Nid oes angen cymarebau cost a budd ar bob prosiect. Fodd bynnag, mae angen Arfarniad Llesiant Integredig ar bob prosiect gan ddefnyddio mesurau **monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.**

Rydym hefyd wedi cyflwyno pum maen prawf gwerth am arian y byddwn yn eu defnyddio i asesu ceisiadau am gyllid trafnidiaeth. Mae'r rhain yn adlewyrchu pum dimensiwn achos busnes – cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflenwi a hydrinedd.

Strwythur y ddogfen hon

Mae **Adran 1** yn darparu cefndir WelTAG. Mae'n egluro dull unigryw Cymru o arfarnu trafnidiaeth.

Mae **Adran 2** yn rhoi arweiniad ar bum cam cynllunio WelTAG.

Mae **Adran 3** yn rhoi arweiniad ar baratoi achos busnes llawn sy'n cwmpasu'r pum dimensiwn, sef cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheolaeth.

Mae **Adran 4** yn rhoi arweiniad ar arfarnu llesiant yn integredig.

Mae **Adran 5** yn ymwneud ag ymgysylltu â phobl yn ystod gwaith cynllunio WelTAG.

Mae **Adran 6** yn ymdrin â materion cyffredin sy'n codi wrth weithio gyda WelTAG.

Mae **Adran 7** yn mynd i'r afael â WelTAG a chynllunio defnydd tir.

Mae **Adran 8** yn cwmpasu cymhwyso WelTAG i wahanol ddulliau trafnidiaeth.

Rydym wedi cyhoeddi rhestrau gwirio ar wahân ar gyfer pob rhan o broses WelTAG. Mae'r rhestrau gwirio wedi'u cynllunio ar gyfer rheolwyr prosiect, grwpiau adolygu ac eraill i adolygu ansawdd adroddiadau WelTAG.

Mae rhestr o dermau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn, rhestr o'r ddeddfwriaeth a chanllawiau mwyaf perthnasol yng Nghymru, a deunydd darllen pellach.

Ffigur 2: WelTAG ar tudalen

Defnyddio'r pum ffordd o weithio
Ymgysylltu â phobl a chymryd llesiant i ystyriaeth ar bob cam

Cyn i chi ddechrau

Cam 0 Cyflwyno'r achos dros newid

Darganfyddwch ac adolygwch wybodaeth sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys gwersi) o bolisïau, rhaglenni neu brosiectau blaenorol. Datblygwch amcanion CAMPUS sy'n gysylltiedig â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a pholisïau allweddol eraill. **Gwnewch hyn yn fewnol**.

Cwmpas y rhaglen neu brosiect

Penderfynwch faint o waith a pha fathau o waith sydd eu hangen i ddatblygu'r polisi, rhaglen neu brosiect. Cefnogwch hyn gyda chynllun ymgysylltu a briffiau ar gyfer ymgynghorwyr os oes angen. Defnyddiwch y broses gwmpasu i benderfynu pa fath o WelTAG y gallai fod ei angen arnoch (byr, safonol neu fanwl).

Cael cymeradwyaeth porth cychwynnol gan randdeiliaid a chyllidwyr posibl i ddatblygu'r gwaith ymhellach.
Mae'n bosibl y bydd angen i brosiectau dros £5 miliwn a phrosiectau dadleuol sy'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn symud ymlaen i Gam 1 yn ogystal â chymeradwyaeth bellach rhwng camau dilynol.

Datblygu'r Prosiect, Y Polisi Neu'r Rhaglen

Cam 1 Achos amlinellol strategol – creu rhestr hir o opsiynau

Defnyddiwch ein dewislen o opsiynau i gynnwys mesurau newid ymddygiad a mesurau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth.
Defnyddiwch ddata ar fodelu trafnidiaeth, llesiant ac anghenion defnyddwyr.
Dewiswch opsiynau sy'n cyd-fynd yn strategol â pholisi Llywodraeth Cymru ac sy'n sicrhau buddion llesiant amlwg.

Cam 2 Achos busnes amlinellol – lleihau'r opsiynau

Defnyddiwch y pum maen prawf i leihau'r rhestr o opsiynau i'r rhai sydd nid yn unig yn dangos cydweddiad strategol cryf ond sy'n darparu buddion llesiant, ac sy'n fforddiadwy, yn gyflawnadwy ac yn hylaw.

Dylunio'r rhaglen, polisi neu becyn gwaith terfynol

Cwblhewch gynllun y rhaglen neu'r prosiect yn ddigon manwl i gwblhau'r achos busnes, gan gynnwys dylunio, cyflwyno, costau a rheolaeth.

Cam 3 Cwblhau'r achos busnes llawn

Paratowch achos busnes llawn ar gyfer yr opsiwn terfynol gan ddefnyddio pum dimensiwn achos busnes – cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheolaeth. Cefnogwch hyn gyda gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Gall cynlluniau trafnidiaeth newydd fel Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys gwybodaeth achos busnes yn y brif ddogfen.

Cwblhau'r arfarniad llesiant integredig a'r asesiadau effaith statudol

Cynhwyswch fesurau yn seiliedig ar fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac adborth gan randdeiliaid.

Cyflwyno'r prosiect, y polisi neu'r rhaglen

Sicrhewch ganiatâd cynllunio, gorchmynion a chytundebau ariannu. Sicrhewch gymeradwyaethau eraill, gan gynnwys cymeradwyaeth y Cabinet neu Weinidog, yn ôl yr angen.
Datblygwch fanylebau a chontractau manwl. Caffaelwch y gwaith neu'r gwasanaethau neu roi'r polisi neu'r rhaglen ar waith.
Goruchwyliwch a rheolwch ddarpariaeth tymor byr a hir, gan gynnwys cynnal a chadw.

Monitro a gwerthuso'r prosiect, y polisi neu'r rhaglen

Monitrwch gynnydd. Darparwch adroddiad cynnydd blynyddol i'r corff cyllido.
Dysgwch o'r prosiect a defnyddiwch y canlyniadau i lywio prosiectau neu raglenni yn y dyfodol.

Ffigur 3: Yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy

Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol trwy

ei gynnal a'i reoli'n dda.

ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid

ei uwchraddio i gefnogi newid dulliau teithio

Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i

Cerdded a Beicio

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Cerbydau allyriadau isel iawn

Cerbydau Modur Preifat Eraill

Adran 1
Cefndir a chyd-destun

Mae'r adran hon yn egluro'r cefndir i WelTAG, gan gynnwys diben WelTAG, dolenni i TAG (DU), a'r berthynas â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Adran 1: Cefndir a chyd-destun

Ysgrifennir y canllaw WelTAG hwn yn bennaf ar gyfer y rheolwr prosiect, rhaglen neu bolisi. Ef neu hi sy'n goruchwylio datblygiad y prosiect, rhaglen neu bolisi ac, yn y pen draw, y gwaith o'i gyflawni.

Beth yw WelTAG?

WelTAG yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynllunio ac arfarnu trafnidiaeth. Rhaid ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw raglen, polisi neu brosiect trafnidiaeth sy'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae cynllunio ac arfarnu trafnidiaeth yn golygu dod o hyd i atebion i broblemau trafnidiaeth. Cynllunio trafnidiaeth yw'r broses o ddatblygu atebion, ac mae arfarnu trafnidiaeth yn ymwneud â sicrhau bod yr atebion hynny'n rhoi gwerth am arian.

Ysgrifennir y canllaw WelTAG hwn yn bennaf ar gyfer y rheolwr prosiect, rhaglen neu bolisi. Ef neu hi sy'n goruchwylio datblygiad y prosiect, rhaglen neu bolisi ac, yn y pen draw, y gwaith o'i gyflawni.

Mae WelTAG yn nodi dull strwythuredig at **gynllunio** rhaglenni a phrosiectau sy'n dechrau gydag archwilio'r achos dros newid ac sy'n symud trwy gyfres o gamau rhesymegol wrth ddatblygu rhaglen neu brosiect, ei gyflawni, ac, yn olaf, ei adolygu wedyn. Mae'r camau hynny'n cynnwys nodi amcanion, cyfyngu ar yr opsiynau, ac yna datblygu achos busnes ar gyfer yr amcan a ddewiswyd. Mae hefyd yn cynnwys monitro a gwerthuso eich rhaglen neu brosiect wedyn.

Mae WelTAG hefyd yn esbonio sut i fynd ati i **arfarnu trafnidiaeth** yng Nghymru drwy baratoi achos busnes sy'n esbonio sut y bydd rhaglen neu brosiect yn rhoi gwerth am arian drwy fynd i'r afael â dimensiynau achos busnes – cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheolaeth.

Ffigur 4: Tair elfen WelTAG – cynllunio, achos busnes ac arfarniad llesiant integredig



Rhaid i bob rhaglen, polisi a phrosiect trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddangos eu heffaith ar lesiant drwy ddarparu arfarniad llesiant integredig.

Rhaid i'r achos busnes hwnnw gynnwys gwybodaeth o drydedd elfen allweddol WelTAG – yr arfarniad llesiant integredig.

Rhaid i bob rhaglen, polisi a phrosiect trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddangos eu heffaith ar lesiant drwy ddarparu arfarniad llesiant integredig.

Mae arfarniad llesiant integredig yn ddull strwythuredig sy'n dangos effaith y rhaglen neu brosiect ar lesiant gan ddefnyddio mesurau ansoddol yn seiliedig ar yr uchelgeisiau llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a mesurau meintiol a dynnwyd o fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hefyd yn defnyddio canlyniadau asesiadau effaith statudol, megis asesiadau effaith amgylcheddol.

Rhaid i bolisïau, rhaglenni a phrosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru hefyd ddangos sut y maent wedi ymgysylltu â phobl fel rhan o'r broses gynllunio a gwneud defnydd o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ceir canllawiau pellach ar y camau cynllunio yn Adran 2. Mae Adran 3 yn egluro pum dimensiwn achos busnes ac mae Adran 4 yn disgrifio arfarniad llesiant integredig ac Adran 5 ymgysylltu â phrosiect.

Mae'n bwysig mabwysiadu dull cymesur at WelTAG sydd wedi'i deilwra i raddfa'r prosiect, rhaglen neu bolisi felly rydym wedi cyflwyno tair lefel o WelTAG (WelTAG byr, safonol a manwl), a nodir yn Adran 6.

Mae rhestrau gwirio manwl ar gyfer pob un o'r rhain.

Pryd dylai WelTAG gael ei ddefnyddio?

Rhaid defnyddio WelTAG ar gyfer unrhyw ymyriad trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gwasanaethau neu seilwaith trafnidiaeth. Dylid defnyddio WelTAG ar gyfer prosiectau, rhaglenni a pholisïau. Mae hyn yn cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, sy'n berthnasol i brosiectau, rhaglenni a pholisïau.

Mae ymyriadau trafnidiaeth yn cynnwys y canlynol:

- cynnal neu uwchraddio seilwaith presennol neu greu seilwaith newydd
- uwchraddio gwasanaethau presennol neu ddarparu gwasanaethau newydd
- cynlluniau neu bolisïau newydd megis cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol neu gynlluniau sy'n benodol i ddull teithio (fel cynllunio ar gyfer bysiau, trenau neu gludo llwythi yn y dyfodol).

Rhaid i ymyriadau trafnidiaeth hefyd gynnwys mesurau newid ymddygiad a chamau gweithredu sy'n lleihau'r angen i deithio fel y rhai a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Yng Nghymru, rydym yn dehongli Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF i sicrhau bod y broses arfarnu hefyd yn adlewyrchu gwerthoedd Cymru.

Yng Nghymru, rydym yn dehongli Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF i sicrhau bod y broses arfarnu hefyd yn adlewyrchu gwerthoedd Cymru.

TAG a WelTAG

Mae WelTAG yn seiliedig ar Ganllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth (TAG) Llywodraeth y DU, sydd yn eu tro yn seiliedig ar Lyfr Gwyrdd Trysorlys EF, sy'n llywio penderfyniadau ar wario arian cyhoeddus.

Yng Nghymru, rydym yn dehongli Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF i sicrhau bod y broses arfarnu yn adlewyrchu gwerthoedd Cymru. O ganlyniad, mae rhai gwahaniaethau yn y ffordd y caiff arfarnu ei wneud yng Nghymru. Mae WelTAG yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Cymru Sero Net, a chyfrifoldebau trafnidiaeth datganoledig (gweler yr atodiad ar gyfer y polisïau a deddfwriaeth fwyaf perthnasol).

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r prif wahaniaethau rhwng TAG a WelTAG:

Ffigur 5: Cymhariaeth rhwng yr achos busnes llawn yn TAG a WelTAG

Achos busnes TAG	Achos busnes WelTAG	Gofynion yng Nghymru
Dimensiwn strategol	Cydweddiad strategol	Rhaid dangos sut mae eich rhaglen neu brosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Cymru Sero Net a dogfennau polisi eraill
Dimensiwn economaidd	Llesiant	Rhaid dangos sut mae'r rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yng Nghymru trwy ddefnyddio arfarniad llesiant integredig
Dimensiwn ariannol	Fforddiadwyedd	Dim gwahaniaethau mawr
Dimensiwn masnachol	Cyflawnadwyedd	Dim gwahaniaethau mawr
Dimensiwn rheoli	Rheolaeth	Dim gwahaniaethau mawr
	Y pum ffordd o weithio	Rhaid dangos y pum ffordd o weithio yng Nghymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dull cymesur

Er mwyn helpu rheolwyr prosiect i fabwysiadu dull cymesur ac osgoi gwybodaeth ddiangen, mae'r diweddariad hwn i WelTAG yn cyflwyno tair lefel wedi'u teilwra i faint, cwmpas a chymhlethdod y prosiect. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **WelTAG byr** – un achos busnes sy'n cyfuno Camau 1-3 mewn un adroddiad.
- **WelTAG safonol** – adroddiadau ar wahân ar Gam 1 (rhestr hir o opsiynau, Cam 2 (rhestr fer o opsiynau a chyfiawnhad dros yr opsiwn terfynol) a Cham 3 (achos busnes llawn).
- **WelTAG manwl** – efallai y bydd angen i raglenni a phrosiectau mwy cymhleth ategu'r arfarniad llesiant integredig gyda gwaith modelu trafnidiaeth a chymarebau cost a budd ychwanegol.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i ddewis y dull gorau yn Adran 6.

Defnyddio cymarebau cost a budd yng Nghymru

Mae cymarebau cost a budd yn arf meintiol ar gyfer cymharu gwahanol opsiynau trafnidiaeth. Maent yn elfen graidd o'r broses TAG. Yng Nghymru, mae llawer mwy o brosiectau trafnidiaeth llai, lle nad yw cymarebau cost a budd o gymorth efallai.

Nid oes angen cyfrifiadau cymhareb cost a budd ar gyfer llawer o raglenni neu bolisïau trafnidiaeth yng Nghymru. Serch hynny, rhaid i bob prosiect, rhaglen a pholisi trafnidiaeth ddangos sut y maent yn sicrhau gwerth am arian drwy achos busnes (Adran 3) wedi'i ategu gan arfarniad llesiant integredig sy'n defnyddio mesurau monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (gweler Adran 4).

Gall nifer fach o brosiectau risg uchel sydd â chyfnod ad-dalu hir neu brosiectau sydd hefyd angen cyllid gan Lywodraeth y DU hefyd gefnogi eu hachos busnes gyda chymarebau cost a budd. Ar gyfer y rhain, dim ond i opsiynau sydd eisoes yn bodloni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru y bydd cyfrifiadau cost a budd yn cael eu cymhwyso. Lle mae prosiectau yn darparu cymarebau cost a budd, rhaid iddynt ddarparu un sy'n cynnwys arbedion amser teithio fel budd ac un sy'n eithrio buddion arbedion amser teithio.

RHAID i bob rhaglen drafnidiaeth ddangos gwerth am arian drwy achos busnes (Adran 3) wedi'i gefnogi gan arfarniad llesiant integredig sy'n defnyddio mesurau meintiol ac ansoddol. Mae'n bosibl y bydd angen cyfrifiadau cymhareb cost a budd ar gyfer prosiectau mwy o faint a mwy cymhleth hefyd.

RHAID i bob rhaglen drafnidiaeth ddangos gwerth am arian drwy achos busnes (Adran 3) wedi'i gefnogi gan arfarniad llesiant integredig sy'n defnyddio mesurau meintiol ac ansoddol. Mae'n bosibl y bydd angen cyfrifiadau cymhareb cost a budd ar gyfer prosiectau mwy o faint a mwy cymhleth hefyd.

Mae Cymru Sero Net yn gosod targed penodol i leihau nifer y milltiroedd mewn ceir a deithir fesul pen 10% erbyn 2030.

WelTAG a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyhoeddwyd Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn 2021. Mae'n disgrifio dyfodol lle mae'r angen i deithio'n cael ei leihau wrth i wasanaethau fod yn gynyddol ddigidol ac yn nes at bobl, lle mae pobl yn symud fwyfwy drwy gerdded a beicio a defnyddio'r bws a'r trên, a lle mae nwyddau'n cael eu cludo mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae Cymru Sero Net yn gosod targed penodol i leihau nifer y milltiroedd mewn ceir a deithir fesul pen 10% erbyn 2030.

Dim ond ymyriadau trafnidiaeth sy'n bodloni targedau, blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru y gall Llywodraeth Cymru eu hariannu. Y pedwar uchelgais hirdymor yw system drafnidiaeth sy'n dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i'r economi a lleoedd, ac yn dda i ddiwylliant a'r Gymraeg. Mae'r pedwar uchelgais hynny'n seiliedig ar y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pob uchelgais yn cynnwys nodau mwy penodol.

Mae tair blaenoriaeth pum mlynedd yn helpu i fynd i'r afael â'r uchelgeisiau hirdymor:

1. Dod â gwasanaethau i bobl i leihau'r angen i deithio
2. Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy
3. Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy (mesurau newid ymddygiad)

Mae yna hefyd dargedau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru, gan gynnwys targed i 45% o deithiau gael eu gwneud gan ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy erbyn 2040.

Ffigur 6: Gweledigaeth, blaenoriaethau ac uchelgeisiau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Llwybr Newydd
Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Ein Gweledigaeth

System drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon

Ein Blaenoriaethau 5 Mlynedd

1. Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio
2. Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon
3. Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy

Ein Huchelgeisiau Llesiant

Yn dda ar gyfer pobl a chymunedau	Yn dda ar gyfer yr amgylchedd	Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru	Yn dda ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg
System drafnidiaeth sy'n cyfrannu at Gymru fwy cyfartal a Chymru iachach, a system mae pawb yn hyderus wrth ei defnyddio.	System drafnidiaeth sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol, yn cynnal bioamrywiaeth ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau, ac yn lleihau gwastraff.	System drafnidiaeth sy'n cyfrannu at ein huchelgeisiau economaidd ehangach, yn helpu cymunedau lleol, yn ategu cadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy, yn defnyddio'r datblygiadau arloesol diweddaraf ac yn sicrhau bod trafnidiaeth yn fforddiadwy.	System drafnidiaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg, yn galluogi rhagor o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i gyrraedd gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol, ac yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol.

Sicrhau Ein Bod Ni A'n Partneriaid Yn Atebol

Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth	Fframwaith gwerthuso newydd	Newid dulliau teithio	Mesurau llesiant	Data am y dulliau a'r sectorau teithio

Sut Y Byddwn Yn Gwneud Hyn

Buddsoddi mewn modd cyfrifol	Cynlluniau cyflawni a gweithredu	Llwybrau cyflawni trawsbynciol	Gweithio mewn partneriaeth	Polisïau a llywodraethu	Sgiliau a chapasiti

Cynlluniau Bach

Cerdded a beicio	Bysiau	Trenau	Ffyrdd, strydoedd a pharcio	Y trydydd sector	Tacsis a cherbydau hurio preifat	Cludo nwyddau a logisteg	Porthladdoedd a thrafnidiaeth forol	Hedfanaeth

Y Pum Ffordd o Weithio

Cynnwys	Integreiddio	Atal	Cydweithio	Hirdymor

Ni ellir dweud bod rhaglen, polisi neu brosiect yn rhoi gwerth am arian yng Nghymru oni bai ei fod yn cyfrannu at ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net.

Sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio WelTAG i asesu gwerth am arian

Mae'r adran hon yn nodi ein pum maen prawf ar gyfer asesu gwerth am arian yng Nghymru.

Yn y pen draw, Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yng Nghymru yn unol â blaenoriaethau ehangach. Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a Phrif Economegydd Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir na ellir ystyried rhywbeth yn werth am arian os yw'n mynd yn groes i nodau polisi'r llywodraeth. Felly, ni ellir dweud bod rhaglen, polisi neu brosiect yn rhoi gwerth am arian yng Nghymru oni bai ei fod yn bodloni ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pum maen prawf gwerth am arian ar gyfer cyllid trafnidiaeth yng Nghymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd â phum dimensiwn achos busnes da a nodir yn TAG y DU ac ag egwyddorion polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. **cydweddiad strategol** – sut mae'r rhaglen neu brosiect yn bodloni blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Llwybr Newydd a pholisïau eraill y llywodraeth.
2. **llesiant** – sut mae'r rhaglen neu brosiect yn darparu buddion llesiant lleol neu genedlaethol ehangach i bobl yng Nghymru, gan gynnwys helpu i gyrraedd ein targedau ar ddatgarboneiddio.
3. **fforddiadwyedd** – a yw costau tymor byr a hirdymor y rhaglen neu brosiect yn fforddiadwy.
4. **cyflawnadwyedd** – a oes y gallu, y galluogrwydd a'r sgiliau i gyflwyno'r rhaglen neu brosiect yn effeithiol ac yn effeithlon.
5. **rheolaeth** – a fydd y rhaglen neu'r prosiect ac unrhyw risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol.

Rhaid bodloni meini prawf 1 a 2 cyn ystyried meini prawf 3, 4 a 5.

Ni ellir dweud bod rhaglen, polisi neu brosiect yn rhoi gwerth am arian yng Nghymru oni bai ei fod yn cyfrannu at ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net.

WelTAG a'r pum ffordd o weithio

Rhaid i bob rhaglen a phrosiect esbonio sut y defnyddiwyd y pum ffordd o weithio a sut y maent wedi siapio'r rhaglen neu'r prosiect.

Er nad oes angen i'r esboniad fod yn faith, ni fydd rhaglenni neu brosiectau nad ydynt yn gwneud hyn mewn ffordd ystyrlon yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n dderbyniol darparu rhestr wirio yn unig.

Y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal.

Dylai'r cynllun ymgysylltu esbonio sut y bydd y pum ffordd o weithio yn cael eu defnyddio a phwy sy'n gyfrifol am eu harwain (gweler Adran 5).

Dylai'r achos busnes terfynol esbonio sut y defnyddiwyd y pum ffordd o weithio i ddatblygu'r prosiect, polisi neu raglen.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn egluro sut i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio mewn rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth, tra bod y cynlluniau bach yn egluro sut maent yn berthnasol i bob dull a sector yng Nghymru.

WelTAG a datgarboneiddio

Rhaid i bob rhaglen a phrosiect trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru helpu i leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth, boed hynny drwy wella'r seilwaith neu wasanaethau presennol, newid ymddygiad neu leihau'r angen i deithio, neu drwy ddarparu gwasanaethau a seilwaith newydd.

Un o'r heriau mwyaf i bolisi trafnidiaeth yng Nghymru yw sut i leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth. Yn 2019, roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau carbon Cymru yn ôl Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25).

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i darged newid dulliau teithio a gynlluniwyd i helpu i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn allyriadau carbon o drafnidiaeth. Mae hefyd yn ymrwymo i ystod o gamau gweithredu eraill i gyflawni hynny, gan gynnwys lleihau'r angen i deithio, mabwysiadu'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer seilwaith trafnidiaeth newydd, a gwneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol, a'i ddiogelu at y dyfodol os oes angen.

Mae'n bwysig rhoi cyfrif llawn am y carbon ychwanegol a gynhyrchir gan gynlluniau trafnidiaeth newydd neu grwpiau o gynlluniau.

Rhaid i feddwl am newid dulliau teithio a datgarboneiddio gael ei gynnwys yn y broses WelTAG o'r cychwyn cyntaf, drwy nodi opsiynau a thrwy ddangos sut y bydd eich prosiect terfynol yn lleihau allyriadau carbon.

Pan fyddwn yn adolygu rhaglenni a phrosiectau ar gyfer cyllid, byddwn yn edrych ar effaith gronnol prosiectau ar ddatgarboneiddio yn ogystal ag effaith prosiectau unigol.

Newid ymddygiad

Dylai pob prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys camau gweithredu sy'n annog mwy o bobl neu sefydliadau i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

Nid oes diben buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy oni bai bod pobl yn eu defnyddio, a dyna pam mai annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy yw'r drydedd flaenoriaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd arloesol o wneud dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy yn fwy deniadol, yn haws eu defnyddio ac yn fwy fforddiadwy.

Gall fod yn ddefnyddiol defnyddio fframwaith cysyniadol ar gyfer newid ymddygiad. Er enghraifft, mae model COM-B o newid ymddygiad yn awgrymu bod yn rhaid i unigolyn allu gwneud ymddygiad a bod â'r cymhelliad i'w wneud, a bod yn rhaid i ffactorau allanol roi'r cyfle iddo ei wneud.

Gall prosiectau a rhaglenni trafnidiaeth wneud hyn drwy wneud y canlynol:

- goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy (gallu)
- darparu cyfleoedd (buddsoddi mewn gwasanaethau neu seilwaith)
- gweithgareddau neu ymgyrchoedd sy'n helpu i ysgogi pobl i wneud y newid.

Adran 2
Camau cynllunio WelTAG

Mae'r adran hon yn drosolwg o gamau cynllunio WelTAG, o gyflwyno'r achos cychwynnol dros newid drwy arfarnu'r opsiynau, yr achos busnes, a'r gwaith cyflawni a gwerthuso.

Adran 2: Camau cynllunio WelTAG

Mae WelTAG yn cynnwys cyfres o gamau cynllunio prosiect sy'n dilyn oes prosiect, rhaglen neu bolisi o'r syniadau cynnar hyd at y cyfod ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Camau cynllunio safonol WelTAG yw fel a ganlyn:

Cam 0 Achos dros newid – beth yw'r blaenoriaethau strategol ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru ac yn eich ardal chi a beth allwch ei wneud i fynd i'r afael â nhw? Nid yw'n cynnwys opsiynau.

Cam 1 Achos amlinellol strategol – pa opsiynau sydd gennym i gyflawni'r amcanion hynny? Pa rai yw'r gorau?

Cam 2 Achos busnes amlinellol – lleihau eich opsiynau i'r pwynt lle mae gennych achos busnes amlinellol.

Cam 3 Achos busnes llawn – datblygu'r rhaglen neu'r cynnig prosiect i'r pwynt lle mae'n barod i gael ei weithredu, gan gynnwys achos busnes manwl.

Cam 4 Cyflawni – os yw'r rhaglen neu'r prosiect yn cael ei ariannu, bydd WelTAG o gymorth i feddwl am sut i reoli a monitro eich prosiect, gan weithio gyda phartneriaid.

Cam 5 Monitro a gwerthuso – dylai pob prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddarparu adroddiadau cynnydd blynyddol yn ogystal â monitro rheolaidd. Efallai y bydd angen gwerthusiad ffurfiol hefyd ar brosiectau mwy i ateb cwestiynau fel a weithiodd fel y bwriadwyd, a wnaethom y peth iawn, a sut y gwnaethom gyfrannu at gyrraedd targedau trafnidiaeth yng Nghymru.

Gall llawer o brosiectau yng Nghymru gyfuno Camau 1-3 yn un achos busnes WelTAG byr (gweler Adran 6). Hyd yn oed os yw'ch prosiect yn defnyddio WelTAG byr, mae'n dal yn ddefnyddiol deall pob un o'r camau.

Cam 0 Achos dros newid (asesiad strategol)

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglenni neu brosiectau nad oes ganddynt achos clir dros newid ar y cychwyn.

Y cam cyntaf ym mhroses gynllunio WelTAG yw achos dros newid Cam 0. Mae hwn yn nodi amcanion trafnidiaeth a'r hyn yr hoffech ei gyflawni. Yr achos dros newid yw sylfaen proses WelTAG.

Mae'n demtasiwn neidio'n syth i mewn i gynllunio opsiwn trafnidiaeth penodol fel parcio a theithio, llwybr beicio, neu uwchraddio cyffordd. Gall hyn wastraffu amser ac arian oherwydd nad yw'r prosiect neu'r pecyn gwaith yn bodloni blaenoriaethau strategol Cymru ar gyfer trafnidiaeth nac anghenion defnyddwyr.

Mae'r achos dros newid yn egluro pam fod angen i chi wneud unrhyw beth o gwbl ac yn sicrhau bod pob prosiect yn seiliedig ar resymeg glir, ymhell cyn i bobl ddechrau meddwl am opsiwn trafnidiaeth penodol. Mae'n mynd i'r afael â phroblem neu gyfle yn hytrach na chynnig ateb trafnidiaeth penodol.

Dylai'r achos dros newid nodi'r amcanion i fynd i'r afael â nhw. Rhaid i'r rhain fod yn seiliedig ar ein blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth yng Nghynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, neu gynlluniau a gymeradwywyd megis mapiau rhwydwaith teithio llesol. Gall cynlluniau llesiant lleol fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae angen i'r amcanion hynny gymryd golwg hirdymor ar y materion. Dylai'r amcanion fod yn rhai CAMPUS – yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol. Dylai'r amcanion hynny ystyried effaith gwneud dim byd neu wneud y lleiafswm absoliwt ar ein blaenoriaethau a'n huchelgeisiau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru.

Mae angen i'r amcanion hynny hefyd fod yn ddigon penodol ynglŷn â'r hyn sydd angen ei newid, i'w gwneud yn bosibl yn y dyfodol i wahaniaethu rhwng gwahanol opsiynau.

Er enghraifft, nid yw 'cyfrannu at newid dulliau teithio drwy adeiladu llwybr teithio llesol newydd a nodir ar fapiau rhwydwaith teithio llesol' o reidrwydd yn helpu i wahaniaethu rhwng gwahanol opsiynau. Mae'n bwysig gwybod am y broblem benodol y mae angen ei datrys, beth yw'r rhwystrau presennol i bobl sy'n defnyddio teithio llesol, pam mae'r llwybr hwn wedi'i flaenoriaethu, pa adborth gan randdeiliaid a allai fod wedi bod eisoes yn ystod yr ymgynghoriad mapiau rhwydwaith teithio llesol, a pha heriau dylunio sydd yno o bosibl (gweler Adran 8). Bydd cwestiynau tebyg yn codi ar gyfer unrhyw ymyriad trafnidiaeth.

Felly y mater allweddol yw nodi'r broblem a pham y mae angen gwneud unrhyw beth, ac yna drafftio amcan ynghylch mynd i'r afael â'r broblem honno. Mae hyn yn cynnwys deall rhai o'r rhwystrau i deithio llesol i bobl yn yr ardal.

Mae'r achos dros newid yn egluro'n syml pam mae angen gwneud rhywbeth, a'r hyn y dylai ei gyflawni. Ni ddylai gynnig opsiwn neu ddull trafnidiaeth penodol oni bai ei fod yn dilyn adolygiad blaenorol sydd eisoes wedi archwilio opsiynau

Dylai'r achos dros newid gael ei lywio gan farn rhanddeiliaid ond efallai na fydd angen cynnal ymgynghoriad llawn. Yn hytrach, defnyddiwch adborth o ymgynghoriadau blaenorol – er enghraifft, fel rhan o ddatblygu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol neu raglen strategol fel map rhwydwaith teithio llesol.

Dylid cytuno ar yr achos dros newid gyda phartneriaid allweddol cyn symud ymlaen ymhellach. Os yw'n debygol y bydd meysydd o anghytuno neu gynnen, dylid nodi'r rhain.

Dylai'r achos dros newid gael ei ddatblygu gan y tîm mewnol sy'n arwain y rhaglen neu'r prosiect. Hwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud yr achos strategol dros ymyrryd yng nghyd-destun blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Gall ymgynghorwyr allanol, os yw'n briodol, gynorthwyo'n ddiweddarach gyda datblygu opsiynau. Gall staff rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru roi cyngor.

Dylai'r achos dros newid fynd drwy'r broses gymeradwyo porth neu sesiwn wirio berthnasol cyn symud ymlaen ymhellach. Er enghraifft, mae gan Trafnidiaeth Cymru bwyntiau 'gwirio' penodol ar gyfer prosiectau teithio llesol neu brosiectau rheilffyrdd mawr.

Os ydych wedi sefydlu grŵp adolygu ar y cam hwn (gweler Adran 5), dylent hefyd adolygu'r achos dros newid, (er mai'r corff ariannu yn unig a all ei gymeradwyo)

Yn aml, mae'n ddefnyddiol dychwelyd at y rhesymeg hon yn ystod y gwaith i sicrhau bod y cynigion yn dal yn gyfiawn ac yn werth eu gwneud.

Ceir rhagor o fanylion am gynnwys yr achos dros newid yn y rhestrau gwirio WelTAG ar wahân.

Cofiwch mai dim ond sail resymegol dros ymyrryd yw'r achos dros newid ac ni ddylai gynnig opsiwn neu ddull trafnidiaeth penodol. Yr eithriad i'r rheol hon yw os yw'r prosiect yn dilyn ymlaen o adolygiad mwy strategol sydd eisoes wedi archwilio opsiynau.

Cwmpasu

Mae cwmpasu yn sefydlu pa fath o waith a faint o waith sydd ei angen i ddatblygu prosiect, rhaglen neu bolisi i fynd i'r afael â'r achos neu'r newid. Bydd yn cynnwys penderfynu a ddylid defnyddio WelTAG byr, WelTAG safonol neu WelTAG manwl

Unwaith y bydd yr achos dros newid wedi'i ddatblygu, rhaid i'r rheolwr rhaglen neu brosiect gynnal ymarfer cwmpasu.

Mae cwmpasu yn sefydlu pa fath o waith a faint o waith sydd ei angen i ddatblygu prosiect, rhaglen neu bolisi i fynd i'r afael â'r achos neu'r newid. Bydd yn cynnwys penderfynu a ddylid defnyddio WelTAG byr, WelTAG safonol neu WelTAG manwl (gweler Adran 6).

Mae cwmpasu hefyd yn ystyried sut y gellid cyflawni'r gwaith hwnnw (e.e. gan ymgynghorwyr neu'n fewnol). Mae cwmpasu'n golygu deall manteision posibl y prosiect (a nodir yn yr achos dros newid) a'r risgiau posibl.

Rhaid i chi gwmpasu'r prosiect cyn comisiynu (os oes angen) ymgynghorwyr allanol. Gall prosiectau fod yn fawr neu'n fach, yn risg uchel neu'n risg isel; mae cwmpasu yn sicrhau bod unrhyw waith a gomisiynir yn cael ei deilwra i anghenion y prosiect, polisi neu raglen.

Gellir nodi gwybodaeth gwmpasu mewn adroddiad cwmpasu. Ar gyfer teithio llesol a phrosiectau rheilffyrdd mawr, gelwir yr adroddiad cwmpasu yn gynllun gweithredu prosiect.

Mae'r rhestr wirio gwmpasu yn rhestru pethau i'w hystyried ac yn cynnwys rhestr gynnwys bosibl ar gyfer adroddiad cwmpasu.
Dylai'r adroddiad cwmpasu gynnwys cynllun ymgysylltu (gweler Pennod 4) a briffiau neu fanylebau ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr megis peirianwyr, dylunwyr neu gynllunwyr trafnidiaeth.

Peidiwch â bwrw ymlaen â'r gwaith nes bod yr achos dros newid a'r adroddiad cwmpasu wedi'u cytuno â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y corff cyllido posibl.

Defnyddiwch yr ymarfer cwmpasu i benderfynu a ddylid defnyddio un cam WelTAG (WelTAG byr) neu WelTAG safonol neu fanwl (gweler Adran 6).

Cam 1 Achos amlinellol strategol

Y cam nesaf yw archwilio rhestr hir o opsiynau neu syniadau a allai helpu i gyflawni'r amcanion, ac yna lleihau'r rhestr hir honno i restr fer.

Sylwch, os ydych yn defnyddio WelTAG byr, dylech gyfuno Cam 1-3 yn esboniad byr o sut a pham yr ydych wedi dewis eich opsiwn terfynol, gan ddefnyddio'r un dull bras ag a nodir yma.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r achos amlinellol strategol, rydym wedi creu dewislen o opsiynau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Er enghraifft:

- **Gwneud dim byd neu wneud cyn lleied â phosibl.** Rhaid i chi archwilio ac, os oes angen, diystyru'r opsiwn hwn cyn mynd ymhellach. Sut y bydd gwneud dim yn effeithio ar y targedau ar gyfer newid dulliau teithio ac uchelgeisiau a blaenoriaethau eraill yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru?
- **Opsiynau cynllunio defnydd tir.** Nid yw atebion trafnidiaeth bob amser yn datrys problemau trafnidiaeth. Blaenoriaeth Un Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw dod â gwasanaethau i bobl i leihau'r angen i deithio bob dydd. A oes opsiynau cynllunio megis lleoli gwasanaethau newydd yn agos at ble mae pobl yn byw, neilltuo tir ar gyfer hybiau aml-ddull i drosglwyddo nwyddau ar gyfer danfoniadau milltir olaf, a hybiau gweithio o bell i leihau pellteroedd cymudo?
- **Opsiynau newid ymddygiad.** Mae Blaenoriaeth Tri Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymwneud â newid ymddygiad – dod o hyd i ffyrdd o alluogi mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy. Dylai pob rhaglen neu brosiect roi sylw i alluoedd, cymhelliant a chyfleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwell gwybodaeth, gwasanaethau cyflymach a mwy dibynadwy, gwell cysylltedd rhwng gwasanaethau, neu ddatblygiadau arloesol sy'n annog pobl i newid i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.
- **Opsiynau ar gyfer gwasanaethau mwy cynaliadwy.** Blaenoriaeth Dau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws trwy wasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy. A oes opsiynau i fuddsoddi mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus? Gall y rhain gynnwys opsiynau ar gyfer gwella dibynadwyedd, diogelwch ac amlder gwasanaethau neu ymestyn eu cyrhaeddiad daearyddol. Neu opsiynau i'w gwneud hi'n haws newid rhwng gwahanol fathau o gludiant? Allwch wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch?

- **Opsiynau i wneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol.** Mae'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn nodi y byddwn yn gwneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol cyn buddsoddi mewn seilwaith newydd. A oes opsiynau i uwchraddio neu wneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol – er enghraifft, i addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu fodloni ein rhwymedigaethau hygyrchedd? A oes opsiynau ar gyfer addasu seilwaith i gefnogi newid dulliau teithio?
- **Opsiynau ar gyfer seilwaith newydd gan ddefnyddio'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy.** Lle mae angen seilwaith newydd arnom, mae'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn seilwaith ar gyfer cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn dros ddefnydd arall o geir preifat. A ydych wedi ystyried yr opsiynau hyn?

Mae yna hefyd syniadau ar gyfer opsiynau yn y naw cynllun bach yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sy'n cwmpasu teithio llesol, bysiau, rheilffyrdd, ffyrdd, strydoedd a pharcio, y trydydd sector, cludo llwythi a logisteg, y môr a hedfan.

Byddwch yn greadigol am yr opsiynau. A oes technoleg newydd a allai fynd i'r afael â'r broblem? A oes atebion digidol?

Gall rhai prosiectau gyfuno opsiynau yn becynnau yn hytrach nag opsiynau unigol ar wahân. Fel arall, gellir cyfuno opsiynau yn ddiweddarach, efallai drwy gymysgu ymyriadau trafnidiaeth ac ymyriadau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth neu ategu mesurau newid ymddygiad â gwasanaethau newydd.

Sylwch fod y dyletswyddau a grëwyd gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yng Nghymru yn golygu y dylai holl raglenni neu brosiectau awdurdodau lleol gynnwys opsiynau teithio llesol.

Mireinio'r opsiynau

Defnyddiwch bum dimensiwn achos busnes i fireinio'r rhestr hir honno o opsiynau. Profwch yr opsiynau yn erbyn a ydynt yn gydweddiad strategol, yn mynd i'r afael â llesiant, yn fforddiadwy, yn gyflawnadwy neu'n hylaw.

Yng ngham 1 rhowch mwy o bwyslais ar asesu opsiynau yn erbyn cydweddiad strategol a dimensiynau llesiant achos busnes.

Yn y cyfnod cynnar hwn, rhowch fwy o flaenoriaeth i asesu opsiynau yn erbyn cydweddiad strategol a llesiant.

Ystyriwch farn partneriaid a rhanddeiliaid.

Defnyddiwch y pum ffordd o weithio i gymryd golwg hirdymor, cynnwys y bobl gywir, chwilio am ffyrdd o integreiddio gwahanol flaenoriaethau, atal problemau yn y dyfodol, a chydweithio â phartneriaid.

Mae'n bosibl na fydd angen ystyried llwybrau fel opsiynau lle mae llwybr eisoes wedi'i nodi mewn cynllun lleol neu ar fap rhwydwaith teithio llesol ac eisoes wedi bod drwy broses o arfarnu systematig. Fodd bynnag, gellir dal i ddefnyddio WelTAG i sefydlu'r opsiynau seilwaith mwyaf priodol ar gyfer llwybr penodol sy'n sicrhau'r manteision mwyaf.

WelTAG ar gyfer opsiynau a bennwyd ymlaen llaw

Gellir dal i ddefnyddio WelTAG i ddatblygu a phrofi opsiwn sydd eisoes wedi cael blaenoriaeth oherwydd ei fod yn cyflawni yn erbyn amcanion polisi ehangach – fel ymrwymiad maniffesto.

Os oes gan brosiect gefnogaeth ddangosol eisoes, mae'n dal yn bwysig nodi achos cadarn dros newid, ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, a darparu achos busnes sy'n dangos sut y bydd yn sicrhau gwerth am arian. Gall gweithio trwy brosesau WelTAG hefyd arwain at ddewis opsiwn gwell neu at fireinio dyluniadau. Fel arfer, dylid cynnwys yr opsiwn 'gwneud dim' neu 'gwneud cyn lleied â phosibl' mewn unrhyw achos busnes ar gyfer cymhariaeth.

Cam 2 Achos busnes amlinellol

Y cam nesaf yw cyfyngu ar y rhestr hir o opsiynau i greu rhestr fer, a nodir mewn achos busnes amlinellol (os ydych yn defnyddio WelTAG byr neu'n datblygu polisi neu raglen, efallai na fydd angen adroddiad Cam 2 arnoch).

Yng Ngham 2, defnyddiwch bum dimensiwn achos busnes da eto i gyfyngu'r rhestr hir o opsiynau i restr fer:

- **cydweddiad strategol:** pa opsiynau sy'n cyd-fynd orau â'ch amcanion (ac felly'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a blaenoriaethau trafnidiaeth lleol neu ranbarthol)? Pam mae rhai yn cyd-fynd yn well nag eraill?
- **llesiant:** pa opsiynau fydd yn cael yr effaith fwyaf buddiol ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol pobl Cymru (defnyddiwch y fframwaith arfarnu llesiant i wneud hyn)? Ar hyn o bryd, rydych yn rhagweld effeithiau tebygol, yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes.

Defnyddiwch fesurau monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i ddangos sut y gallai opsiynau gyfrannu at lesiant a chyflawni targedau a blaenoriaethau trafnidiaeth.

Yng Ngham 2, meddyliwch yn fanylach am a yw'r opsiynau'n bodloni'r tri maen prawf nesaf:

- **fforddiadwyedd:** beth yw amcangyfrif o gostau pob opsiwn a pha rai, yn realistig, sy'n fforddiadwy neu o leiaf yn cynrychioli gwerth am arian? Efallai y byddwch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar lefelau posibl y cyllid sydd ar gael.
- **cyflawnadwyedd:** beth yw'r heriau cyflawni o amgylch pob opsiwn? Â phwy y byddai'n rhaid i chi gydweithio i roi'r opsiwn ar waith? Beth fyddent yn poeni amdano?
- **rheolaeth:** beth yw'r risgiau a'r heriau goruchwylio sy'n gysylltiedig â phob opsiwn? Pa opsiynau fyddai'r hawsaf neu'r mwyaf realistig i'w rheoli? Beth yw'r prif risgiau a sut y byddwch yn eu rheoli?

Meddyliwch yn greadigol. A ellir cyfuno neu gyflwyno opsiynau fesul cam?

Dechreuwch ddatblygu eich arfarniad llesiant integredig. Defnyddiwch fesurau monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i ddangos sut y gallai opsiynau gyfrannu at lesiant a chyflawni targedau a blaenoriaethau trafnidiaeth. Cefnogwch eich dadleuon gyda data. Gallai hyn fod yn ddata meintiol – er enghraifft, am symudiadau traffig neu gostau neu alw – neu wybodaeth fwy ansoddol am yr effaith ar fioamrywiaeth, er enghraifft.

Ar ddiwedd Cam 2, gofynnwch i'r grŵp adolygu gytuno ar yr opsiwn terfynol neu'r pecyn gwaith. Dylid cyflwyno hwn i'r corff cyllido i'w gymeradwyo.

Mae rhestr wirio fanylach ar gyfer yr achos busnes amlinellol.
There is a more detailed checklist for the outline business case.

Cam 3 Achos busnes

Mae Cam 3 WelTAG yn cynnwys datblygu achos busnes llawn.

Mae'r achos busnes llawn yn cyfiawnhau'r opsiwn neu'r dull a ddewiswyd. Mae'n rhoi sicrwydd i bartneriaid a'r corff cyllido posibl bod eich cynllun yn cyd-fynd yn dda ag amcanion strategol, y bydd yn cael effaith fuddiol ar lesiant, bod y costau'n gadarn, y gellir ei gyflawni, a bod modd rheoli unrhyw risgiau.

Mae pum dimensiwn i achos busnes da:

- Mae'r dimensiwn **cydweddiad strategol** yn esbonio sut mae polisi neu raglen eich prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ehangach Llywodraeth Cymru.
- Mae'r dimensiwn **llesiant** yn esbonio sut mae llesiant wedi cael ei ystyried wrth ddewis opsiynau a dyluniad polisi neu raglen derfynol y prosiect. Dylai fod yn grynodeb o'r arfarniad llesiant integredig manylach (Adran 4).
- Mae'r dimensiwn **fforddiadwyedd** yn darparu costau mwy manwl gywir ar gyfer eich rhaglen neu brosiect, gan gynnwys costau cyfalaf a refeniw tymor byr a thymor hir.
- Mae'r dimensiwn **cyflawni** yn esbonio sut y caiff eich rhaglen neu brosiect ei gyflawni a sut y gellir defnyddio'r broses dendro neu gaffael i sicrhau y cyflawnir rhai o fanteision llesiant ehangach y rhaglen neu'r prosiect – megis sgiliau, diogelu bioamrywiaeth, neu fuddion cymunedol.
- Mae'r dimensiwn **hydrinedd** yn esbonio sut bydd y prosiect, rhaglen neu bolisi yn cael ei reoli i gyrraedd cerrig milltir, mynd i'r afael â risgiau, ac ymdrin â materion nas rhagwelwyd.

The business case should also explain how the programme policy or project will be evaluated and how you will measure success.

It should be supported by a more detailed integrated well-being appraisal and other relevant documents such as design documents and costings.

At the end of this stage, you should have enough information to make an application to a funding body such as Welsh Government. You should be able to provide enough information to make an informed decision.

Section 3 provides further details of the five dimensions of a business case and section 4 provides further guidance on integrated well-being appraisal.

We have published a separte business case checklist.

Mae'r amrywiol nodiadau canllaw ar ddulliau trafnidiaeth unigol, gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd a theithio llesol yn cynnwys gwybodaeth fanylach am gyflawni prosiectau (gweler hefyd adran 8).

Cam 4 Cyflawni

Os byddwch yn llwyddo i gael cyllid, y cam nesaf yw cyflwyno'r prosiect, polisi neu raglen. Dylai'r achos busnes llawn esbonio eisoes sut y caiff y prosiect ei gyflawni a'i reoli.

Mae'n bosibl y bydd rhagor o waith dylunio i'w wneud o hyd, yn enwedig ar gyfer prosiectau mwy fel rhaglenni neu brosiectau ffyrdd a rheilffyrdd, neu waith uwchraddio mawr i seilwaith neu adeiladu seilwaith newydd. Gall hyn hefyd olygu paratoi manylebau manwl (Adran 6).

Gall y cam hwn hefyd gynnwys cael cydsyniadau statudol neu gymeradwyaeth reoleiddiol, ac unrhyw ymchwiliadau cyhoeddus.

Bydd yn cynnwys caffael prosiectau, gan gynnwys manylebau manwl a threfniadau contractio.

Yn olaf, mae'r cam hwn yn cynnwys cyflawni'r prosiect neu'r rhaglen ei hun. Bydd hyn yn golygu nid yn unig gwaith ar lawr gwlad ond sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n briodol trwy weithredu'r broses lywodraethu i fonitro cynnydd, cwrdd â cherrig milltir, monitro costau a chydymffurfedd, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau mewn prosiectau.

Gweler y rhestr wirio ar gyfer cyflawni rhaglen neu brosiect.

Cam 5 Monitro a gwerthuso

Os caiff y prosiect ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn gofyn am adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae'n bosibl y bydd angen i chi hefyd ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyflwyno i'ch noddwr mewnol neu dîm uwch.

Mae **adroddiad cynnydd blynyddol** yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'r rhaglen neu brosiect wedi'i gyflawni. Mae adroddiad cynnydd blynyddol yn fersiwn lai manwl o adroddiad gwerthuso llawn. Mae'n rhoi manylion am y prosiect ac unrhyw newidiadau a sut mae'r cynllun ymgysylltu wedi'i roi ar waith. Mae'n egluro pa wahaniaeth a wnaeth y prosiect i bobl, beth weithiodd yn dda, beth na wnaeth, a'r gwersi a ddysgwyd.

Fel cyllidwyr eraill, rydym yn cydnabod y gall pethau newid yn ystod y gwaith o gyflwyno rhaglen neu brosiect, gan gynnwys risgiau nas rhagwelwyd. Nodwch unrhyw faterion cyn gynted â phosibl. Gall diweddariadau rheolaidd i ni, yn ogystal ag adroddiadau cynnydd blynyddol, helpu i nodi materion yn gynnar.

Ar gyfer prosiectau mwy a mwy cymhleth, y cam olaf yw gwerthuso ac adolygu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gyflawni.

Mae **monitro** yn ymwneud â chasglu data i asesu a yw'r rhaglen neu'r prosiect wedi cyflawni yn ôl y bwriad. **Gwerthuso** yw asesiad mwy systematig o gynllun, gweithrediad a chanlyniadau ymyriad, er mwyn deall ei effeithiau a beth y gellir ei wella. Mae gwybodaeth o adroddiadau gwerthuso hefyd yn ein helpu i fireinio ein prosesau grantiau ar gyfer y dyfodol.

Nid oes angen gwerthusiad llawn ar bob prosiect trafnidiaeth. Dylai prosiectau sy'n defnyddio WelTAG byr gyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol (gweler uchod). Efallai y bydd angen gwerthusiad llawn ar raglenni neu bolisïau sy'n defnyddio WelTAG safonol, a phrosiectau mwy a mwy cymhleth hefyd.

Gweler rhestr wirio Cam 5.

Mynd yn ôl gam

Gall prosiectau, polisïau a rhaglenni trafnidiaeth fod yn fawr ac yn gymhleth ac yn cymryd amser. Yn aml, mae amgylchiadau'n newid yn ystod y gwaith cynllunio. Weithiau gallwch ymdopi â'r newidiadau hynny trwy ddim ond mireinio'r prosiect.

Lle mae'r newid mewn amgylchiadau yn peri risg sylweddol i lwyddiant y prosiect, efallai y bydd angen ailfeddwl am y rhaglen neu'r prosiect. Yn yr achos hwn, peidiwch â bod ofn mynd yn ôl gam. Gallai hyn olygu dim ond ailedrych ar rai rhagdybiaethau cynharach, ailfeddwl am rai opsiynau, neu hyd yn oed ailedrych ar yr achos dros newid. Gobeithio y bydd llawer o'r gwaith cynharach yn dal yn berthnasol.

Gall cael syniad clir o ran a yw'r rhesymau pam fod angen i chi weithredu yr un peth neu wedi newid, a ph'un a yw eich amcanion yn dal yn rhai cywir neu ddim yn ddilys bellach, eich helpu i ailasesu'ch opsiynau a'ch cynllun terfynol.

Efallai y bydd angen i chi fynd yn ôl gam hefyd os yw gwaith cynllunio yn fwy na phum mlwydd oed neu yn dilyn digwyddiadau arwyddocaol neu newidiadau i bolisi.

Adran 3
Pum dimensiwn achos busnes WelTAG

Mae'r adran hon yn egluro pum dimensiwn achos busnes WelTAG.

Adran 3: Pum dimensiwn achos busnes WelTAG

Mae'r rhain yn seiliedig ar yr egwyddorion cyffredin ar gyfer achos busnes da a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, canllawiau achos busnes Trysorlys EF ar gyfer prosiectau, a chanllawiau achos busnes Trysorlys EF ar gyfer rhaglenni.

Mae canllawiau hefyd yng nghanllawiau Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar achosion busnes llawn (gweler y deunydd darllen pellach isod). Mae Trysorlys EF yn darparu hyfforddiant ac achrediad yn y fethodoleg Achos Busnes Gwell. Nid yw Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau ar wahân ei hun ar achosion busnes.

Yn fras, mae WelTAG yn dilyn canllawiau achos busnes llawn Adran Drafnidiaeth y DU gyda rhai gwahaniaethau allweddol, a nodwyd yn y cyflwyniad.

Peidiwch ag aros tan ar ôl i'r prosiect gael ei gynllunio i ddatblygu'r achos busnes. Defnyddiwch bum dimensiwn achos busnes fel meini prawf yn y broses arfarnu opsiynau. Mae hyn yn cynnwys yr achos amlinellol strategol yng Ngham 1 a'r achos busnes amlinellol yng Ngham 2.

Disgrifiad o'r prosiect

Mae ansawdd a chadernid yr achos busnes terfynol yn dibynnu ar gael disgrifiad digon manwl o'r prosiect, rhaglen neu bolisi.

Cyn i chi gwblhau achos busnes Cam 3, rhaid i chi fod â'r wybodaeth ganlynol (o leiaf):

- yr achos dros newid
- y gwaith cynharach ar arfarnu opsiynau, gan gynnwys achos amlinell strategol Cam 1 ac achos busnes amlinellol Cam 2
- disgrifiad manwl o'r prosiect, rhaglen neu bolisi a sut y caiff ei gyflawni
- adroddiad arfarniad llesiant integredig wedi'i ategu gan unrhyw asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol
- adborth o'ch gweithgareddau ymgysylltu a chynnwys
- syniadau am sut y byddwch yn gwerthuso neu'n monitro'r cynllun

Mae disgrifiad manwl y cynllun neu ddyluniad y prosiect yn hanfodol. Ar gyfer gwasanaeth trafnidiaeth newydd, nodwch y canlyniadau a'r allbynnau – pa wasanaethau fydd yn cael eu darparu a chan bwy ac i ba safonau? Ar gyfer prosiect cyfalaf, mae angen manyleb prosiect yn nodi cynllun, lleoliad a llwybr unrhyw seilwaith newydd neu well. Rhaid i hon ystyried canlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, yr arfarniad llesiant ac asesiadau effaith statudol. Lle mae'r prosiect, polisi neu raglenni'n cynnwys opsiynau eraill fel rhaglenni newid ymddygiad, rhowch fanylion y canlyniadau – beth fydd y rhaglen yn ei gyflawni a sut y caiff ei chyflawni. Gall gynnwys manyleb ar gyfer cyflawni ymgyrchoedd neu ymgysylltu â'r cyhoedd neu wybodaeth am ymyriadau trafnidiaeth. Ar gyfer datrysiadau TG, nodwch ganlyniadau ac allbynnau'r prosiect.

Cydweddiad strategol

Mae'r rhan hon o'r achos busnes yn esbonio sut mae'r cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ehangach yng Nghymru, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i flaenoriaethau trafnidiaeth.

Mae'n seiliedig ar achos sylfaenol Cam 0 dros newid ac wedi'i seilio ar y cyd-destun strategol, gan gynnwys:

- cyd-destun strategol trafnidiaeth ar gyfer Cymru a'r DU
- y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol, y cynllun datblygu strategol, ac unrhyw flaenoriaethau trafnidiaeth lleol
- blaenoriaethau presennol ar gyfer gwariant a nodir yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru
- blaenoriaethau strategol lleol a rhanbarthol a nodir mewn cynlluniau lleol
- deddfwriaeth a dyletswyddau perthnasol, gan gynnwys Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- blaenoriaethau presennol y cytunwyd arnynt a nodir mewn mapiau rhwydwaith teithio llesol
- meini prawf penodol ar gyfer unrhyw gynlluniau grant y gallech fod yn gwneud cais amdanynt

Mae'n bwysig peidio â gweld trafnidiaeth ar ei phen ei hun – mae angen iddi fod yn gysylltiedig â chreu lleoedd a phobl.

Y pedwar uchelgais llesiant hirdymor yn strategaeth drafnidiaeth Cymru yw system drafnidiaeth sy'n dda ar gyfer pobl a chymunedau, yn dda ar gyfer yr amgylchedd, yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd, ac yn dda ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg.

Ar gyfer **trafnidiaeth**, mae'r cyd-destun strategol wedi'i nodi yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Cymru Sero Net, y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

Mae hefyd yn bwysig deall cyd-destun strategol y DU gyfan os ydych yn ymdrin â dulliau trafnidiaeth fel rheilffyrdd, trafnidiaeth forol neu hedfanaeth nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru. Efallai y bydd angen i chi ddeall data a phatrymau trafnidiaeth cyfredol hefyd.

Mae **cyd-destun cynllunio defnydd tir hefyd yn bwysig**. Mae creu lleoedd yn ymwneud â deall y lleoedd cenedlaethol, rhanbarthol neu leol a allai elwa ar eich ymyriad trafnidiaeth. Bydd y cynllun datblygu lleol neu Cymru'r Dyfodol yn helpu i ddarparu'r cynllunio defnydd tir ehangach, a'r cyd-destun seiliedig ar le ar gyfer trafnidiaeth.

Yn olaf, mae **pobl** yn ymwneud â deall y cyd-destun strategol ar gyfer pobl a chymunedau a allai gael eu heffeithio gan, neu elwa ar, eich rhaglen neu brosiect posibl. Mae hyn yn cynnwys deall y cyd-destun cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach fel amddifadedd economaidd-gymdeithasol neu faterion iechyd sy'n llywio bywydau pobl yn eich ardal.

Amseriad
Ystyriwch gydweddiad strategol fel rhan o achos dros newid Cam 0 ac yn ystod proses Cam 1 a 2 o nodi opsiynau yn ogystal ag yn yr achos busnes.

Llesiant

Mae'r adran hon o'r achos busnes yn nodi effaith ehangach eich rhaglen neu brosiect ar lesiant. Mae'n cyfateb i'r achos economaidd yn TAG. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl am lesiant ac mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn dangos sut y gall trafnidiaeth gyfrannu at y nodau llesiant drwy bedwar uchelgais llesiant hirdymor – yn dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i leoedd ac i'r economi, ac yn dda i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg.

Dylai'r achos busnes llawn esbonio sut y bydd eich rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at lesiant. Dylai grynhoi'r arfarniad llesiant integredig manylach. Mae arfarniad llesiant integredig yn defnyddio mesurau meintiol ac ansoddol i asesu effeithiau llesiant mewn ffordd strwythuredig, yn seiliedig ar y pedwar uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r mesurau meintiol wedi'u nodi yn fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Efallai y bydd angen i arfarniad llesiant integredig gael ei ategu gan yr asesiadau effaith statudol a rheoleiddiol perthnasol.

Mae canllawiau pellach ar lunio arfarniad llesiant integredig wedi'u nodi yn Adran 4 isod.

Mae'n arbennig o bwysig defnyddio data da, yn enwedig os nad ydych yn darparu modelau cost a budd ychwanegol. Mae'r fframwaith arfarniad llesiant integredig yn darparu mesurau meintiol ac ansoddol. Mae'r mesurau hynny'n cynnwys y targedau ar gyfer trafnidiaeth yng nghynllun Cymru Sero Net. Rhaid i chi ddangos sut y bydd eich rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at y rhain.

Mae'n arbennig o bwysig defnyddio data da, yn enwedig os nad ydych yn darparu modelau cost a budd ychwanegol. Mae'r fframwaith arfarniad llesiant integredig yn darparu mesurau meintiol ac ansoddol. Mae'r mesurau hynny'n cynnwys y targedau ar gyfer trafnidiaeth yng nghynllun Cymru Sero Net.

Amseriad

Peidiwch ag aros i feddwl am lesiant tan ar ôl i chi ddylunio'ch rhaglen neu brosiect. Wrth arfarnu'r opsiynau, hidlwch allan opsiynau nad ydynt yn cyfrannu at lesiant. Cwblhewch asesiadau effaith statudol manylach cyn i chi baratoi'r achos busnes terfynol. Bydd hyn yn sicrhau y gallwch ddangos sut yr ydych wedi ystyried llesiant wrth ddylunio eich prosiect.

Ceir rhagor o wybodaeth am lunio arfarniad llesiant integredig yn Adran 4 isod. Rydym wedi cyhoeddi rhestrau gwirio manylach ar gyfer arfarniadau llesiant integredig.

Fforddiadwyedd

Mae'r adran hon o'r achos busnes yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd y cynllun, gan gynnwys costau tymor byr a hirdymor, trefniadau ariannu, a materion cyfrifyddu technegol yn TAG, fe'i gelwir yn achos ariannol.

Mae'n trafod gofynion cyfalaf a refeniw ar hyd oes y rhaglen neu brosiect a goblygiadau'r rhain ar gyfer y fantolen a chyfrifon incwm a gwariant sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Fel y nodwyd, rhaid cael disgrifiad manwl o'r cynllun neu ddyluniad y prosiect cyn y gellir cwblhau adran fforddiadwyedd yr achos busnes. Dylai hwn nodi'r allbynnau gofynnol yn ddigon manwl i allu gwneud asesiadau cadarn o gostau tymor byr a hirdymor tebygol y cynllun.

Nodwch gostau cyfalaf cychwynnol y rhaglen neu brosiect a'r costau refeniw tymor hwy, gan gynnwys costau cynnal a rheoli seilwaith a chostau parhaus darparu gwasanaeth. Dylai'r costau hynny gynnwys costau gweinyddol, adnoddau a chyfalaf dros oes gyfan y rhaglen neu'r prosiect.

Nodwch ffynhonnell bosibl unrhyw gostau cyfalaf, a phwy fydd yn gyfrifol am gyllid refeniw hirdymor, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio unrhyw seilwaith.

Rhaid i chi ymgysylltu â'r rhai a fydd yn gyfrifol am gyflwyno unrhyw brosiect neu wasanaethau (gan gynnwys yr awdurdod lleol) a datblygu dealltwriaeth dda o gostau a chyfrifoldebau cyflawni tymor byr a hirdymor. Dylai hyn fod wedi cael ei ystyried fel rhan o'r cynllun ymgysylltu.

Eglurwch pryd y bydd costau oes y rhaglen neu brosiect yn digwydd. Nodwch y pris ar yr adeg y byddant yn codi, gan gynnwys lwfansau ar gyfer chwyddiant a phwy fydd yn talu pa gostau a phryd, gan gynnwys rhwymedigaethau cynhaliaeth. Rhaid i'r costau nodi'r symiau a ganiateir ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a risgiau. Os yn bosibl, dylid defnyddio dull costio oes gyfan, gan gynnwys costau ailddefnyddio neu waredu ar ddiwedd oes. Rhaid hefyd nodi'r costau sy'n gysylltiedig â sicrhau a darparu buddion llesiant, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

Dylid nodi ffynhonnell y cyllid. Rhaid i chi nodi o ble y daw'r arian ar gamau gwahanol y prosiect, gan gynnwys ffynonellau cyfalaf a refeniw, yn ogystal ag unrhyw ofynion tebygol gan y corff cyllido.

Os yw cyllid yn cynnwys benthyca, eglurwch pa mor gadarn yw'r trefniant ac unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal yr ad-daliad a llog. Nodwch unrhyw oblygiadau cyfrifyddu.

Rhaid nodi'n eglur unrhyw fwlch o ran cyllid. Dylid nodi ffynonellau posibl o gyllid allanol i fodloni diffygion mewn cyfalaf a refeniw, a dylid datgan gofynion a meini prawf y cyrff ariannu hynny. Dylid nodi risgiau sy'n effeithio ar lefel ac amseriad incwm gan drydydd partïon, megis incwm prisiau gan ddefnyddwyr. Lle daw'r ffrydiau refeniw hyn o'r sector preifat, dylai fod cysylltiadau â'r achos cyflawnadwyedd (isod).

Amseriad
Er mai dim ond yn hwyr yn y broses gynllunio y gellir gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith manwl ar gostau, rhaid ystyried fforddiadwyedd ar y dechrau.

Rhaid i'r achos dros newid Cam 0 ystyried ffynonellau cyllid posibl a'r fforddiadwyedd tebygol. Wrth i'r rhaglen neu'r prosiect fynd drwy'r broses o arfarnu opsiynau yng Ngham 1 a 2, defnyddiwch fforddiadwyedd i gyfyngu ar opsiynau.

Rhaid i'r achos busnes terfynol yng Ngham 3 gynnwys costau manylach a chadarnach ar gyfer y rhaglen neu brosiect. Wrth gyflawni'r prosiect (Cam 4), rhaid i chi reoli costau, gan gynnwys ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl, risgiau, neu brosesau nas rhagwelwyd. Yng Ngham 5, dylid cynnwys newidiadau cost yn yr adroddiadau cynnydd blynyddol.

For projects or packages of work, it is important to set out the procurement strategy. This explains the project will be sourced and paid for, and details of the contractual issues including the length of the contract and how it will be managed, and how you will secure the wider impacts and benefits.

Cyflawnadwyedd

Mae'r adran hon o'r achos busnes yn egluro sut y caiff y rhaglen neu'r prosiect ei chyflwyno a chan bwy. Yn TAG, fe'i gelwir yn achos masnachol. Mae'n nodi hyfywedd y prosiect a'r strategaeth gaffael a ddefnyddir i ymgysylltu â'r farchnad.

Mae'n egluro a fydd cynllun yn ddichonadwy – er enghraifft, a yw'n mynd i fod yn bosibl caffael y cynllun ac a fydd ei fanteision yn cael eu gwireddu yn y dyfodol. Mae'n ystyried sut y gallai'r sector preifat fod yn rhan o bob opsiwn. Os yw'r sector preifat yn gysylltiedig, mae hefyd yn edrych ar faterion fel trefniadau contractiol a staffio, a'r ymrwymiad i waith teg.

Os oes angen caniatâd cynllunio neu ganiatâd statudol arall ar y cynllun hefyd, dylai esbonio sut yr eir i'r afael â'r rhain a sut yr ystyrir unrhyw newidiadau posibl i'r prosiect neu raglen (Adran 6).

Fel y nodwyd uchod, dim ond ar ôl i chi gael cynllun gweddol fanwl (neu bolisi, neu ddisgrifiad rhaglen neu ddyluniad prosiect) y gellir ei gwblhau.

Ar gyfer prosiectau neu becynnau gwaith, mae'n bwysig nodi'r strategaeth gaffael. Mae hon yn egluro o le y bydd anodau'r prosiect yn dod a sut y caiff y prosiect ei gyllido, a manylion y materion contractiol, gan gynnwys hyd y contract a sut y caiff ei reoli, a sut y byddwch yn sicrhau'r effeithiau a buddion ehangach. Mae hefyd yn nodi materion yn ymwneud â risg, gan gynnwys pwy fydd yn cymryd risgiau o ran galw, caniatâd cynllunio neu argaeledd refeniw. Mae hefyd yn nodi mecanweithiau i gymell perfformiad, effeithlonrwydd ac arloesedd. Ar gyfer polisïau a rhaglenni, rhaid i chi hefyd esbonio sut y cânt eu darparu.

Rhaid i adran cyflawnadwyedd yr achos busnes gwmpasu'r canlynol:

- unrhyw ofynion am ganiatâd cynllunio neu ganiatadau a chytundebau eraill
- strategaeth gaffael, gan gynnwys eich opsiynau cyrchu
- mecanweithiau talu a fframwaith prisio
- pennu a throsglwyddo risg
- hyd contractau a sut y caiff eu rheoli a chymalau allweddol

Eglurwch sut y bydd y buddion llesiant yn cael eu sicrhau. Er enghraifft, os byddwch yn disgwyl i'r sefydliad sy'n cyflawni eich prosiect gynnwys elfen o fudd cymunedol megis prentisiaethau newydd, neu hyfforddiant a sgiliau, sut y cânt eu sicrhau? Pa drefniadau contractio fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau manteision cymunedol, amgylcheddol neu ddylunio, neu fanteision eraill, a sut y caiff y buddion hynny eu cyflawni?

Dylai'r adran hon hefyd egluro'r agweddau cyflawni hirdymor ac agweddau gweithredol ar y prosiect, y rhaglen neu'r pecyn gwaith. Pwy fydd yn gyfrifol am ddarparu unrhyw wasanaethau newydd? Sut bydd unrhyw seilwaith newydd yn cael ei gynnal a'i weithredu a chan bwy? Sut bydd y mesurau newid ymddygiad yn cael eu gweithredu a chan bwy?

Os gallai'r prosiect, polisi neu raglen gael effaith ar fioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau, er enghraifft, sut y byddwch yn sicrhau bod y contractwyr neu bartneriaid llwyddiannus yn cyflawni'r buddion hynny i safon briodol? Pwy fydd yn ei fonitro a'i oruchwylio?

Ceir rhagor o fanylion yn rhestrau gwirio achosion busnes Cam 3.

Amseriad

Dim ond ar ôl adolygiad cychwynnol o opsiynau y gellir cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith ar gyflawnadwyedd. Ar gyfer prosiectau seilwaith cymhleth, efallai y bydd angen adolygiadau dichonoldeb o wahanol opsiynau a gwaith ychwanegol yn ymwneud â chaniatâd cynllunio. Dylai gwaith manylach ar gyflawnadwyedd fynd rhagddo ynghyd â gwaith ar gostau gan y bydd cysylltiad agos rhyngddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer deall goblygiadau refeniw hirdymor unrhyw wasanaethau, cyfleusterau neu seilwaith newydd.

Rheolaeth

Mae'r rhan hon o'r achos busnes yn ymwneud â sut y bydd y rhaglen neu'r prosiect yn cael ei oruchwylio, ei reoli a'i gyflwyno. Mae'n ein sicrhau bod eich rhaglen neu brosiect yn gyraeddadwy a bod gennych chi a'r partneriaid cyflenwi y gallu i'w gyflawni. Mae'n dangos i ni eich bod wedi mynd i'r afael â risgiau allweddol.

Unwaith eto, ni ellir cwblhau'r adran hon o'r achos busnes oni bai bod disgrifiad manwl o'r cynllun neu ddyluniad y prosiect ar gael a bod adrannau eraill yr achos busnes, gan gynnwys yr adrannau ar fforddiadwyedd a chyflawni, hefyd yn eu lle.

Rhaid iddi nodi'r canlynol:

- y rhaglen neu brosiect a beth fydd yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys pecynnau gwaith ac amseriadau
- pa drefniadau a wnaethoch ar gyfer grŷp adolygu a phwy fydd arno
- cerrig milltir a phwyntiau penderfynu
- sut bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei reoli yn ystod y cyfnod cyflawni
- strategaeth rheoli risg – yn nodi risgiau allweddol (gan gynnwys eu tebygolrwydd a'u heffaith) a phwy fydd yn gyfrifol am fynd i'r afael â nhw
- trefniadau llywodraethu prosiect neu raglen
- trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r prosiect neu'r rhaglen
- sut y bydd gofynion gweithrediadau a chynnal a chadw yn y dyfodol yn cael eu llywodraethu
- unrhyw faterion diogelwch data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r prosiect neu'r rhaglen a sut y cânt eu rheoli, gan gynnwys cydymffurfedd

Sylwch y dylai hyn gynnwys llywodraethu unrhyw waith neu wasanaethau uniongyrchol, yn ogystal â llywodraethu darpariaeth barhaus.

Rhaid i'r adran hon hefyd nodi trefniadau ar gyfer pwyntiau penderfynu ac adolygiadau porth. Er enghraifft, os bydd maint y prosiectau neu'r costau'n newid, pwy fydd yn gwneud penderfyniadau?

Eglurwch sut bydd y prosiect, polisi neu raglen yn cael ei monitro neu ei gwerthuso. Ar gyfer prosiectau llai, risg is sy'n defnyddio WelTAG byr, darparwch adroddiadau cynnydd blynyddol. Ar gyfer prosiectau mwy, risg uwch sy'n defnyddio WelTAG safonol a manwl, darparwch gynllun gwerthuso llawn.

Pennwch broses rheoli risg sy'n esbonio sut y caiff risgiau eu nodi a sut yr ymdrinnir â hwy, a pha drefniadau wrth gefn sydd ar waith i ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

Gweler hefyd y rhestr wirio achos busnes ar gyfer y rheolwr prosiect.

Amseriad

Er ei bod yn bwysig meddwl sut y caiff y prosiect neu'r rhaglen ei rheoli yn ystod camau cynharach, ni ellir cwblhau'r rhan fwyaf o'r adran hon o'r achos busnes oni bai fod y cynllun wedi'i ddatblygu'n dda, gydag arfarniadau ar waith, materion cyflawni wedi'u hystyried, a chostau wedi'u pennu'n derfynol.

Adran 4
Arfarniad llesiant integredig

Mae'r adran hon yn cyflwyno arfarniad llesiant integredig ar gyfer rhaglenni, polisïau a phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru.

Adran 4: Arfarniad llesiant integredig

Mae arfarniad llesiant integredig yn ddull trwyadl, strwythuredig o ddeall effaith rhaglen neu brosiect ar lesiant, gan ddefnyddio gwybodaeth feintiol ac ansoddol.

Rhaid i bob menter trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gyfan gwbl neu'n rhannol sicrhau buddion llesiant i bobl Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yr arfau allweddol ar gyfer gwneud hyn yw'r arfarniad llesiant integredig a mesurau monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae arfarniad llesiant integredig yn ddull trwyadl, strwythuredig o ddeall effaith rhaglen neu brosiect ar lesiant, gan ddefnyddio gwybodaeth feintiol ac ansoddol.

Rhaid i bob rhaglen, polisi neu brosiect trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys arfarniad llesiant integredig sy'n dangos sut y bydd yn cyfrannu at lesiant yng Nghymru, gan gynnwys ein pedwar uchelgais llesiant a'n targedau penodol ar gyfer trafnidiaeth.

Dylid teilwra'r arfarniad llesiant integredig i anghenion y prosiect, rhaglen neu bolisi.

Nid ymarfer adrodd 'blwch ticio' yn unig mohono. Rhaid defnyddio'r wybodaeth yn yr arfarniad llesiant integredig wrth ddylunio i gynnwys buddion ac osgoi unrhyw effeithiau a allai fod yn niweidiol ym mhob cam o'r broses WelTAG. Nid yw hwn yn ofyniad newydd.

Roedd canllawiau blaenorol WelTAG yn cynnwys adroddiad asesu integredig. Mae'r diweddariad hwn i WelTAG yn ailenwi'r adroddiad asesu integredig yn arfarniad llesiant integredig ac yn diweddaru'r canllawiau i gyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Nid yw'r gofyniad ar gyfer arfarniad llesiant integredig yn disodli'r angen am asesiadau effaith statudol (gweler adran 7) ond mae'n disodli'r angen am arfarniadau cynaliadwyedd integredig ar gyfer prosiectau trafnidiaeth.

Cynnwys arfarniad llesiant integredig

Rhaid i arfarniad llesiant integredig ddangos sut yr aethpwyd i'r afael â llesiant yn y polisi, rhaglen neu brosiect. Dylai nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol a dangos sut y cafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hosgoi neu eu lliniaru. Ar gyfer ymyriadau trafnidiaeth, dylai'r arfarniad llesiant integredig fynd i'r afael â phedwar cwestiwn allweddol yn seiliedig ar y pedwar uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru:

- Sut bydd y rhaglen neu brosiect o fudd i bobl a chymunedau?
- Sut bydd o fudd i'r amgylchedd?
- Sut bydd o fudd i leoedd a'r economi?
- Sut bydd o fudd i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg?

Dylid mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn yn ansoddol drwy ystyried y nodau manylach o dan bob uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. I bobl a chymunedau, mae'r nodau'n ymwneud â chydraddoldeb, iechyd a diogelwch, a hyder. Ar gyfer yr amgylchedd, mae'r rhain yn ymwneud â lleihau allyriadau carbon, bod o fudd i fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, a lleihau gwastraff. Ar gyfer lleoedd a'r economi, mae nodau sy'n ymwneud â chreu lleoedd, arloesi a chludo llwythi, ac ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg, y celfyddydau a chwaraeon, a'r amgylchedd hanesyddol.

Dylid mynd i'r afael â'r cwestiynau'n feintiol hefyd gan ddefnyddio fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r mesurau hynny'n ymgorffori'r targedau meintiol ar newid dulliau teithio ac allyriadau carbon yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Ffigur 7: Arfarnu llesiant yn WelTAG

Achos Busnes Trafnidiaeth Llawn

Y bennod ar lesiant

Mae'n esbonio sut mae materion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a materion seiliedig ar leoedd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r prosiect, y polisi neu'r rhaglen neu'r pecyn o waith a pha fanteision a fydd yn deillio ohono (ohoni)

Arfarniad Llesiant Integredig

Adroddiad mwy manwl ar sut yr ymdriniwyd â'r uchelgeisau a'r targedau ar gyfer llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Fe'i hategir gan wybodaeth ansoddol a meintiol gadarn ac mae'n seiliedig ar y fframwaith arfarniadau llesiant integredig

A yw'r prosiect yn dda i bobl a chymunedau?	A yw'r prosiect yn dda i'r amgylchedd?	A yw'r prosiect yn dda i'r amgylchedd?	A yw'r prosiect yn dda i leoedd a'r economi?
Cydraddoldeb – sut y bydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ffisegol, cymdeithasol ac economaidd a'r rhwystrau eraill i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?	Sut y bydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn cyfrannu at newid dulliau teithio?	Ym mha ffordd y bydd o fudd i leoedd, ardaloedd gwledig ac yn darparu swyddi da?	Sut y bydd yn effeithio ar y Gymraeg?
Iechyd – sut y bydd yn gwella lefelau gweithgarwch ac ansawdd aer?	Ym mha ffordd y bydd o fudd i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau?	Pa ddatblygiadau arloesol o ran trafnidiaeth gynaliadwy y bydd y neu darparu? Sut y caiff nwyddau eu dosbarthu mewn ffordd fwy cynaliadwy?	Sut y bydd yn gwella mynediad at y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon drwy drafnidiaeth gyhoeddus?
Sut y bydd yn gwella diogelwch a hyder?	Sut y bydd yn lleihau gwastraff?	Yr effaith ar fforddiadwyedd ac anfantais economaidd-gymdeithasol	Ym mha ffordd y bydd o fudd i dreftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol?

Asesiadau effaith statudol a rheoleiddiol (yn ôl yr angen)

Asesiad o'r effaith amgylcheddol (gan gynnwys priddoedd, dŵr, bioamrywiaeth) Asesiadau rheoliadau cynefinoedd Effeithiau ar gydraddoldeb – economaidd-gymdeithasol, iechyd, nodweddion gwarchodedig, pobl ifanc Effeithiau ar leoedd (treftadaeth, tirlun, tirwedd)

Rhaid i'r arfarniad llesiant integredig hefyd nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl a sut yr eir i'r afael â'r rheini. Ar gyfer pob cwestiwn, dylai'r adroddiad esbonio'r canlynol:

- sut mae llesiant wedi'i integreiddio i ddyluniad y rhaglen neu'r prosiect o'r camau cynharaf
- sut bydd y prosiect, polisi neu raglen yn darparu buddion llesiant
- sut mae unrhyw effeithiau negyddol posibl wedi'u hosgoi neu eu lleihau
- sut bydd buddion llesiant yn cael eu sicrhau yn ystod y gwaith cyflenwi a'u monitro neu eu gwerthuso wedyn
- sut mae pobl wedi cymryd rhan yn y broses a sut mae adborth wedi'i ystyried

Llwybr Newydd: fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Rhaid i arfarniadau llesiant integredig ddefnyddio fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Dyma set o fesurau a ddatblygwyd i asesu cynnydd yn erbyn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae gan y fframwaith chwe mesur allweddol a 27 o fesurau atodol. Y mesurau allweddol yw'r rhai a ystyrir yn bwysicaf o ran cefnogi nodau trosfwaol Llywodraeth Cymru o newid dulliau teithio a lleihau carbon. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi darparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer pob mesur, a fydd yn cael ei diweddaru'n flynyddol o 2023.

Mae'r mesurau wedi'u dewis i ddangos cynnydd yn erbyn y pedwar uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sydd yn eu tro yn cysylltu â'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Maent hefyd yn ymgorffori'r targedau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net.

Data a chrynodebau ar gyfer pob un o fesurau'r Fframwaith Monitro

Mae'r data isod yn rhoi darlun cyfredol ar gyfer pob un o'r mesurau allweddol ac atodol yn y Fframwaith Monitro.

Bydd y data hwn yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn o 2023 ymlaen.

Ffigur 8: Fframwaith Fonitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Blaenoriaethau

1. Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio
2. Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon
3. Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy

Nodau

1. Buddiol i bobl a chymunedau
2. Buddiol i'r amgylchedd
3. Buddiol i'r economi ac i leoedd yng Nghymru
4. Buddiol i ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg

Mesurau allweddol		Blaenoriaethau			Nodau			
M1	% y teithiau cerdded, beicio ac ar drafnidiaeth gyhoeddus	1	2	3	1	2	3	4
M2	% y cerbydau allyriadau isel iawn neu sero		2	3	1	2	3	
M3	Cyfanswm cilomedrau cerbyd a deithiwyd	1	2	3	1	2		
M4	Pellter cyfartalog a deithiwyd fesul person	1		3		2		
M5	% y gweithlu sy'n gweithio o bell yn rheolaidd	1		3		2		
M6	Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth	1	2	3		2		

Mesurau allweddol		Blaenoriaethau			Nodau			
S1	Amser teithio cyfartalog i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden	1	2	3	1	2	3	4
S2	% y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gael mynediad i wasanaethau yn eu hardal leol	1	2	3	1	2	3	4
S3	% y bobl o fewn pellter cerdded i ddulliau teithio cynaliadwy	1	2	3	1	2	3	
S4	% y bobl sy'n cerdded neu feicio o leiaf unwaith yr wythnos fel dull teithio		2	3	1	2	3	
S5	% y teithiau i orsaf drenau drwy gerdded, beicio neu ar fws		2	3	1	2	3	
S6	% y teithiau i atyniadau ymwelwyr drwy ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy		2	3	1	2	3	4
S7	% y rhwydwaith rheilffyrdd sydd wedi'i drydaneiddio		2	3		2	3	
S8	% y llwythi a gludir ar y tir gan drên		2			2	3	
S9	% y gwasanaethau bws a thrên sydd ar amser		2	3	1		3	
S10	Nifer y mannau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd		2	3		2		
S11	% y bobl sy'n fodlon gyda'u taith		2	3	1			
S12	% y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol		2	3	1			
S13	% y gorsafoedd trenau nad oes ganddynt risiau		2	3	1			
S14	% y bysiau a threnau sydd â gwybodaeth glyweledol		2	3	1			
S15	% y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector trafnidiaeth		2	3	1			4

Mesurau allweddol		Blaenoriaethau		Nodau		
S16	Oedi cyfartalog fesul cilomedr a deithiwyd	2	3		3	
S17	Cost gyfartalog fesul cilomedr a deithiwyd drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus	2	3	1	3	
S18	% y bobl sy'n teimlo nad ydynt yn gallu fforddio teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus	2	3	1	3	
S19	Pobl a laddwyd neu a anafwyd ar y rhwydwaith trafnidiaeth	2	3	1		
S20	% y bobl sy'n teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt wrth deithio	2	3	1		
S21	% y seilwaith trafnidiaeth mewn cyflwr da	2	3	1	3	
S22	% y seilwaith trafnidiaeth mewn perygl llifogydd	2	3	1	3	
S23	Lefel y llygryddion aer o'r sector trafnidiaeth			1		
S24	% y bobl y mae sŵn o du allan i'r cartref a achosir gan drafnidiaeth yn eu poeni			1		
S25	Hectarau o gynefin ar yr ystâd trafnidiaeth sy'n cael eu cynnal neu eu gwella er lles bioamrywiaeth				2	
S26	% y gwastraff a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu				2	
S27	% yr asedau hanesyddol dynodedig ar yr ystâd trafnidiaeth sydd mewn cyflwr sefydlog neu sy'n gwella					4

Ni fydd pob mesur yn berthnasol i bob prosiect neu raglen. Dewiswch y mesurau hynny sydd fwyaf perthnasol i'ch prosiect, rhaglen neu bolisi. Os byddwch yn dewis peidio â defnyddio mesurau penodol, dylid nodi'r rheswm dros beidio â defnyddio'r mesurau hynny yn yr arfarniad llesiant integredig.

Ceir disgrifiad llawn o'r dull cyfrifo a ddefnyddiwyd ar gyfer pob un o'r mesurau allweddol ac atodol, gan gynnwys eu diffiniad technegol a gwybodaeth am eu ffynonellau data a'u hamlder, yn Adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2022).

Ni fydd pob mesur yn berthnasol i bob prosiect neu raglen. Dewiswch y mesurau hynny sydd fwyaf perthnasol i'ch prosiect, rhaglen neu bolisi. Os byddwch yn dewis peidio â defnyddio mesurau penodol, dylid nodi'r rheswm dros beidio â defnyddio'r mesurau hynny yn yr arfarniad llesiant integredig.

Dylai'r arfarniad llesiant integredig hefyd ddefnyddio data ffynonellau data eraill fel yr adroddiad tueddiadau'r dyfodol a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Defnyddio cymarebau cost a budd yng Nghymru

Mae cymhareb cost a budd yn mynegi effeithiau a buddion mewn termau ariannol. Mae'n gyfrifiad sy'n gosod costau cynllun yn erbyn buddion ariannol. Fel y nodwyd uchod, ni fydd angen cyfrifiadau cost a budd ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau unigol yng Nghymru. Yn lle hynny, bydd arfarniad llesiant integredig cadarn, trwyadl sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio mesurau monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a defnyddio tystiolaeth o asesiadau effaith statudol, yn ddigon. Dylai hyn gael ei ategu gan fanylion costau cyfredol a chostau'r rhaglen neu'r prosiect yn y dyfodol a nodir yn adran fforddiadwyedd yr achos busnes.

Gall nifer fach o brosiectau mawr, cymhleth sy'n cynnwys symiau sylweddol o arian cyhoeddus ategu'r arfarniad llesiant integredig gyda chyfrifiadau cost a budd manylach. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn debygol o fod angen cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Felly bydd angen iddynt gydymffurfio â gofynion TAG y DU yn ogystal â WelTAG.

Pan fydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar y prosiectau hynny, bydd angen dwy set o gymarebau cost a budd – un sy'n cynnwys arbedion amser teithio fel budd, ac ail set nad yw'n cynnwys y buddion a ddaw yn sgil arbedion amser teithio. Yn ogystal, dylid gwahanu arbedion amser â gwerth ariannol i ddangos dosbarthiad yr arbedion amser (er enghraifft, 0-2 funud, 2-5 munud, a 5 munud a mwy). Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i weld yr effeithiau a dosbarthiad y buddion ar wahân ac yn eu cynorthwyo i wneud dyfarniadau ar effaith yr arbedion amser wrth gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

Dim ond os ydynt yn cefnogi blaenoriaethau ac uchelgeisiau Llwybr Newydd y bydd arbedion amser teithio yn cael eu hystyried fel mantais – hynny yw, gwella amseroedd teithio ar gyfer cerdded, beicio a dulliau trafnidiaeth gyhoeddus i'w gwneud yn gystadleuol o ran amser yn erbyn y car preifat ac annog newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy. Mae arbedion amser teithio i yrwyr ceir yn annog mwy o ddefnydd o geir ac felly'n tueddu i danseilio amcanion blaenoriaeth uchel Llywodraeth Cymru i hyrwyddo newid i ddulliau teithio eraill a lleihau'r defnydd o geir a'r allyriadau carbon cysylltiedig.

Ni fyddwn yn ystyried arbedion amser teithio i ddefnyddwyr ceir preifat fel mantais gan nad yw'n cefnogi blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Rhagweld y dyfodol

Mae rhagweld y dyfodol yn golygu rhagweld tueddiadau tebygol yn y dyfodol mewn trafnidiaeth a theithio, yn seiliedig ar newidiadau disgwyliedig mewn incwm, prisiau, strwythurau demograffig, cyflogaeth, hamdden, a ffactorau eraill, gan ddefnyddio'r rhagolygon hyn i asesu anghenion trafnidiaeth yn y dyfodol a gwerth am arian gwahanol ffyrdd o'u diwallu.

Gall prosiectau sy'n defnyddio WelTAG manwl ategu'r arfarniad llesiant integredig â modelau a chyfrifiadau ychwanegol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ac uchelgeisiau llesiant Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys cydraddoldeb, iechyd a datgarboneiddio.

Gall prosiectau sy'n defnyddio WelTAG manwl ategu'r arfarniad llesiant integredig â modelau a chyfrifiadau ychwanegol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ac uchelgeisiau llesiant Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys cydraddoldeb, iechyd a datgarboneiddio.

Er nad oes angen modelu hyn yn benodol, dylai pob cynllun ystyried dyfodol tebygol system drafnidiaeth Cymru wrth ddatblygu amcanion ac arfarnu opsiynau. Dylai'r dyfodol hwn fod wedi'i wreiddio yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sy'n nodi dyfodol lle mae'r angen i deithio'n cael ei leihau wrth i wasanaethau fod yn gynyddol ddigidol ac yn nes at bobl, lle mae pobl yn symud fwyfwy drwy gerdded a beicio a chan ddefnyddio gwasanaethau bws a thrên, a lle mae nwyddau'n cael eu cludo mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae Cymru Sero Net yn nodi dyfodol amlwg lle mae nifer y milltiroedd car a deithir fesul pen yn lleihau 10% erbyn 2030; yn unol â hyn, dylai'r llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol dybio bod y defnydd o ffyrdd yn cael ei leihau yn unol â'r targed hwn.

Amseriad

Peidiwch â'i adael i gamau olaf yr achos busnes cyn ystyried llesiant fel rhan o'r prosiect, polisi neu raglen. Ystyriwch effeithiau a buddion llesiant o gamau cynharaf y prosiect a defnyddiwch ystyriaethau llesiant i ddewis opsiynau, dylunio'r cynllun ac ystyried costau.

Ffigur 9: Sut y dylid asesu llesiant ar bob cam WelTAG

Camau WelTAG	WelTAG safonol neu fanwl	WelTAG byr
Cam 0 Achos dros newid	Cynnwys canlyniadau llesiant yn yr achos dros newid.	Cynnwys canlyniadau llesiant yn yr achos dros newid.
Cwmpasu'r rhaglen neu brosiect.	Nodi pa asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol ychwanegol y gallai fod eu hangen fel rhan o'r cwmpasu neu sgrinio. Datblygu briff ar gyfer yr arfarniad llesiant integredig.	Datblygu briff ar gyfer y fframwaith arfarniad llesiant integredig.
Cam 1 Achos busnes amlinellol strategol	Defnyddio'r arfarniad llesiant integredig i ragweld effeithiau posibl pob opsiwn.	Defnyddio'r fframwaith arfarniad llesiant integredig i ddangos sut mae llesiant wedi dylanwadu ar ddewis a chynllun yr opsiwn terfynol. Darparu arfarniad llesiant integredig.
Cam 2 Achos busnes amlinellol	Defnyddio'r arfarniad llesiant integredig i gyfyngu ar y rhestr fer o opsiynau.	
Cam 3 Achos busnes llawn	Defnyddio'r arfarniad llesiant integredig i ddylunio'r opsiwn terfynol. Darparu arfarniad llesiant integredig. Darparu asesiadau effaith statudol.	
Cam 4 Cyflawni	Sicrhau buddion llesiant mewn dogfennau contract. Sicrhau bod buddion llesiant yn cael eu darparu.	Sicrhau bod buddion llesiant yn cael eu darparu.
Cam 5 Monitro a gwerthuso	Cynnwys mesurau llesiant yn yr adroddiad perfformiad blynyddol. Gwerthuso canlyniadau llesiant.	Cynnwys mesurau llesiant yn yr adroddiad perfformiad blynyddol.

Adran 5
Ymgysylltu â phobl

Mae'r adran hon yn nodi pam a sut y mae'n rhaid i chi ymgysylltu â phobl fel rhan o WelTAG a sut i ddatblygu cynllun i wneud hynny.

Adran 5: Ymgysylltu â phobl

Rhaid i chi ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o broses WelTAG.

Nid dim ond ymgynghori â phobl ynghylch a ydynt yn cytuno â chynnig penodol yw ymgysylltu – mae hefyd yn golygu cynnwys pobl. Efallai y bydd angen i rai pobl neu grwpiau ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a chyflwyno eich rhaglen neu brosiect (neu gymryd rhan yn y gwaith hwnnw), efallai y bydd angen i chi ymgysylltu â rhai er mwyn deall eu persbectif, ac efallai y bydd rhai pobl y mae angen i chi ymgynghori â nhw cyn i chi allu cwblhau eich prosiect.

Mae ymgysylltu hefyd yn helpu i gyflawni yn erbyn y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan mai cynnwys a chydweithio yw dwy o'r pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus yng Nghymru eu mabwysiadu. Mae gwybodaeth am drafnidiaeth a'r pum ffordd o weithio yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn darparu canllawiau (gweler y deunydd darllen pellach).

Mae llawer o fanteision i ymgysylltu â phobl. Gall eich helpu i wella ansawdd eich rhaglen neu brosiect ac osgoi unrhyw ganlyniadau niweidiol anfwriadol. Gall helpu'r tîm i ddylunio gwasanaethau neu seilwaith a fydd yn diwallu anghenion pobl. Gall ymgysylltu eich helpu i ddatblygu rhaglen neu brosiect y gellir ei gyflwyno, a gall hefyd sicrhau eich bod yn dod â dylanwadwyr allweddol gyda chi.

Un o fanteision mwyaf ymgysylltu â phobl yw helpu i ysbrydoli newid ymddygiad. Nid oes diben buddsoddi mewn gwasanaethau neu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy oni bai fod pobl yn eu defnyddio. Mae newid ymddygiad yn un o'r tair blaenoriaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a dylai pob prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys elfennau o newid ymddygiad.

Y cynllun ymgysylltu

Pan fyddwch yn cysylltu â ni am gyllid, byddwn yn disgwyl i chi ddweud wrthym sut yr ydych wedi ymgysylltu â phobl fel rhan o'ch prosiect, rhaglen neu bolisi. Dyma pam y bydd angen cynllun ymgysylltu ar eich prosiect.

Bydd angen i chi baratoi cynllun ymgysylltu fel rhan o'r ymarfer cwmpasu ar gyfer eich prosiect. Dylai eich cynllun ymgysylltu roi sylw i bum pwnc allweddol:

- gyda phwy rydych am ymgysylltu
- pam rydych eisiau ymgysylltu â nhw
- sut y byddwch yn ymgysylltu â nhw
- pryd y byddwch yn ymgysylltu
- beth fyddwch yn ei wneud gyda'r adborth a ddarperir ganddynt

Yr olaf yw'r pwysicaf gan nad oes diben ymgysylltu â phobl oni bai eich bod yn barod i ymateb i adborth a'i ddefnyddio i lywio dyluniad eich rhaglen neu brosiect.

Ar gyfer prosiect syml, gallai cynllun ymgysylltu fod yn ddwy ochr o bapur. Ar gyfer rhaglen neu brosiect cymhleth, gallai fod yn hirach.

Drafftiwch y cynllun yn gynnar fel rhan o'r cam cwmpasu a chynhwyswch y cynllun ymgysylltu gyda'ch adroddiad cwmpasu. Efallai y bydd angen i chi ddiweddaru eich cynllun ymgysylltu wrth i'r rhaglen neu'r prosiect ddatblygu.

Bydd angen i chi hefyd adrodd ar ganlyniadau eich ymgysylltiad fel rhan o'r achos busnes ar gyfer eich prosiect, gan gynnwys a yw eich prosiect yn dderbyniol i wahanol grwpiau, a sut yr ydych wedi ystyried eu barn wrth ddylunio'r prosiect.

I gael rhagor o fanylion, gweler y rhestr wirio ar gyfer cynlluniau ymgysylltu.

Drafftiwch y cynllun yn gynnar fel rhan o'r cam cwmpasu a chynhwyswch y cynllun ymgysylltu gyda'ch adroddiad cwmpasu. Efallai y bydd angen i chi ddiweddaru eich cynllun ymgysylltu wrth i'r rhaglen neu'r prosiect ddatblygu.

Grŵp adolygu

Dylai'r cynllun ymgysylltu gynnwys trefniadau ar gyfer grŵp adolygu prosiect, rhaglen neu bolisi.

Os nad ydych yn bwriadu sefydlu grŵp adolygu, dylai'r cynllun ymgysylltu esbonio'r rhesymeg dros beidio â gwneud hynny a sut y caiff safbwyntiau rhanddeiliaid eu hymgorffori.

Dyma'r grŵp o randdeiliaid allweddol y mae angen iddynt adolygu elfennau o'ch prosiect. Diben grŵp adolygu yw rhoi adborth a her adeiladol i'r rheolwr prosiect a thîm y rhaglen.

Sylwch nad y grŵp adolygu sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd prosiect, rhaglen neu bolisi yn cael ei ariannu. Gweinidogion Cymru neu eu hawdurdodau dirprwyedig sy'n gyfrifol am y penderfyniad hwnnw.

Sylwch nad y grŵp adolygu sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd prosiect, rhaglen neu bolisi yn cael ei ariannu. Gweinidogion Cymru neu eu hawdurdodau dirprwyedig sy'n gyfrifol am y penderfyniad hwnnw.

Dylai'r grŵp gynnwys cynrychiolwyr o brif sefydliadau partner neu randdeiliaid, yn ogystal â chynrychiolwyr y bobl y mae'r gwaith posibl yn debygol o effeithio fwyaf arnynt. Dylai gynnwys pobl ag arbenigedd mewn agweddau ar arfarnu llesiant, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, seiliedig ar le a diwylliannol. Dylai fod rhywun ag arbenigedd mewn teithio llesol – er enghraifft, o un o'r sefydliadau niferus sy'n cynrychioli defnyddwyr trafnidiaeth, beicwyr neu gerddwyr. Mae hefyd yn ddefnyddiol cael pobl sydd â phrofiad byw o heriau trafnidiaeth, fel pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Yn dibynnu ar y cwmpas, dylai fod aelod annibynnol hefyd â gwybodaeth am y materion ac nad yw'n rhan o'r tîm a all ddarparu adolygiad diduedd o'r dystiolaeth a'r achos.

Yn hytrach na chael llawer o wahanol grwpiau, efallai y byddai'n ddefnyddiol cael un grŵp adolygu sy'n edrych ar wahanol brosiectau neu raglenni trafnidiaeth, ac felly'n datblygu arbenigedd dros amser.

Bydd angen ichi ymgysylltu'n gynnar, ac yn aml, â'r grŵp adolygu. Gall y grŵp adolygu ddefnyddio'r rhestrau gwirio ar ddiwedd y canllaw hwn i helpu i asesu unrhyw adroddiadau a chynnydd prosiectau.

Sylwch mai dim ond un elfen o'r broses ymgysylltu yw grŵp adolygu. Bydd angen i chi hefyd ymgysylltu ag eraill – er enghraifft, ar agweddau technegol y prosiect neu i sicrhau bod dealltwriaeth dda o gostau tymor byr a hirdymor y prosiect a sut y caiff ei reoli.

Swyddogaethau a chyfrifoldebau WelTAG

Mae llywodraethu proses WelTAG yr un mor bwysig â chynnwys adroddiadau.

Rhaid i bobl sy'n ymwneud â phroses WelTAG ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Aelod o'r grŵp adolygu
Fel y nodwyd uchod, bydd angen grŵp adolygu ar y rhan fwyaf o brosiectau neu raglenni. Mae aelodau'r grŵp adolygu yn cefnogi rheolwr y prosiect trwy nodi materion a risgiau allweddol a helpu i ddod o hyd i atebion. Nid nhw sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar ariannu prosiect – dyna rôl Gweinidogion Cymru. Yn hytrach, maent yn adolygu ansawdd tystiolaeth a chyflwyniadau ac yn helpu tîm y prosiect i ddatblygu'r achos busnes gorau posibl. Mae'r rhestrau gwirio yn helpu i wneud hyn.

Efallai y bydd gan aelodau sy'n cynrychioli grŵp penodol hefyd gyfrifoldeb ehangach am gynrychioli barn y grŵp hwnnw ar y panel adolygu. Dim ond un elfen o'r broses ymgysylltu ehangach yw'r grŵp adolygu.

Gweinidogion a swyddogion
Yn y pen draw, Gweinidogion Llywodraeth Cymru sy'n gwneud penderfyniadau am gyllid ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru yn erbyn eu blaenoriaethau cenedlaethol, ond gellir dirprwyo penderfyniadau unigol i swyddogion yn Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru neu awdurdodau lleol, fel rhan o raglenni fel cynlluniau grant sydd wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion. Bydd angen digon o wybodaeth ar swyddogion neu benderfynwyr eraill am brosiectau i wneud penderfyniad gwybodus, neu argymhelliad i Weinidogion, gan ddefnyddio'r pum maen prawf.

Cyd-bwyllgorau corfforedig
Mae'r rhain yn dod â nifer o awdurdodau lleol ynghyd i oruchwylio cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol yn ogystal â swyddogaethau eraill. Bydd cydbwyllgorau corfforedig yn pennu'r blaenoriaethau trafnidiaeth rhanbarthol y bydd rhaglenni a phrosiectau WelTAG rhanbarthol a lleol yn seiliedig arnynt. Mae ganddynt rôl hanfodol wrth alinio blaenoriaethau trafnidiaeth a datblygu - yn enwedig yr angen i ddod â gwasanaethau'n agosach at bobl er mwyn lleihau'r defnydd o geir bob dydd.

Noddwr y prosiect (uwch-swyddog cyfrifol)
Mae'r unigolyn hwn yn gyfrifol am arolygiaeth strategol y rhaglen neu'r prosiect. Mae'n gwneud y cysylltiad ehangach rhwng y prosiect a meysydd polisi eraill – megis cynllunio neu iechyd. Rhaid iddo roi diweddariadau rheolaidd i gyfarwyddwyr, Gweinidogion a/neu aelodau etholedig ar gynnydd y prosiect, gan roi gwybod iddynt am unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg. Bydd angen iddo hefyd gefnogi'r tîm sy'n datblygu'r prosiect, gan eu helpu i gydweithio ag eraill.

Rheolwr prosiect, rhaglen neu bolisi
Ysgrifennir y canllaw WelTAG hwn yn bennaf ar gyfer y rheolwr prosiect, rhaglen neu bolisi. Ef neu hi sy'n goruchwylio datblygiad y prosiect, rhaglen neu bolisi ac, yn y pen draw, y gwaith o'i gyflawni. Yn ystod proses WelTAG, mae'n sicrhau bod y gwaith yn gymesur ac wedi'i deilwra i anghenion y prosiect, rhaglen neu bolisi; yn arwain unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid; ac yn goruchwylio cyfarfodydd y grŵp adolygu. Dylai fod yn gyfrifol am ddrafftio'r achos cychwynnol dros newid, a hefyd am baratoi ar gyfer y gwaith gweithredu (neu'r cynllun gweithredu). Yn ystod y cam cyflawni (Cam 4), mae'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiect ac yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso yng Ngham 5, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol.

Ymgynghorydd / cynllunydd trafnidiaeth neu arfarnwr
Efallai y bydd angen i'r rheolwr prosiect gomisiynu sefydliad allanol i ddatblygu'r rhaglen fanwl neu gynllun y prosiect a'r achos busnes. Yn ogystal â darparu arbenigedd mewn prosiectau trafnidiaeth ac wrth arfarnu, dylai ymgynghorydd allanol sicrhau bod unrhyw adroddiadau WelTAG a gynhyrchir ganddo yn cael eu teilwra i anghenion tîm y prosiect. Gall y rheolwr prosiect ofyn i'r ymgynghorydd arwain ar rai elfennau o ymgysylltu â rhanddeiliaid megis cynnull y grŵp adolygu.

Er y gall fod gan yr ymgynghorydd arbenigedd mewn modelu neu arfarnu, mae'r un mor bwysig ei fod yn deall rôl ehangach trafnidiaeth fel galluogwr ac yn gallu cefnogi'r rheolwr prosiect i ddylunio prosiect sy'n cyflawni llesiant. Rhaid i'w adroddiadau fod yn gryno, yn hawdd eu darllen, ac yn hygyrch.

Y pum ffordd o weithio

Gall pob un o'r gwahanol bobl sy'n ymwneud â WelTAG chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu hymgorffori ym mhroses WelTAG.

Er enghraifft, mae noddwr y prosiect yn chwarae rhan allweddol yn ***integreiddio*** - cymryd trosolwg strategol o'r prosiect i ddeall sut mae'n cyfrannu at agendâu ehangach, megis datgarboneiddio, cydraddoldeb, iechyd neu'r economi. Dylai estyn allan i feysydd polisi eraill mewn llywodraeth leol neu genedlaethol i sicrhau bod y rhaglen neu'r prosiect yn cyd-fynd â nodau eraill. Mae rheolwr y prosiect yn sicrhau bod y prosiect yn mynd i'r afael â phob un o'r pum ffordd o weithio ac mae ganddo rôl benodol ym maes ***cydweithio*** o ran sut mae'r prosiect XXX yn cael ei gyflwyno. Bydd y cynllun ymgysylltu yn dangos sut mae pobl wedi cael eu ***cynnwys*** yn natblygiad y prosiect.

Mae'r ymgynghorydd / arfarnwr trafnidiaeth arbenigol yn sicrhau bod proses WelTAG yn cymryd golwg ***hirdymor*** drwy ddarparu'r data a'r dadansoddiadau i ddeall effeithiau tymor hwy y rhaglen neu'r prosiect. Mae ganddo rôl hanfodol ym maes ***cynnwys*** trwy gydlynu strategaethau ymgynghori ac ymgysylltu. Bydd yr arfarniad llesiant integredig yn cyfrannu'n uniongyrchol at atal drwy ddangos sut y bydd y polisi, rhaglen neu brosiect arfaethedig yn ***atal*** problemau rhag gwaethygu – megis anghydraddoldeb mewn trafnidiaeth neu allyriadau carbon uwch. Mae aelodau'r grŵp adolygu yn helpu'r rheolwr prosiect i sicrhau bod y bobl iawn yn ***cymryd rhan*** yn natblygiad y prosiect.

Adran 6
WelTAG ar waith

Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â rhai cwestiynau cyffredin a godir gan ddefnyddwyr WelTAG.

Adran 6: WelTAG ar waith

Hyd yr adroddiadau

Dylai adroddiadau WelTAG fod yn gryno ac i'r pwynt. Dylai'r darllenydd allu deall yn hawdd yr hyn yr ydych yn ei gynnig a pham yr ydych yn ei gynnig. Dylai fod cysylltiad clir â pholisïau Llywodraeth Cymru, a dylech ddangos sut yr ydych wedi mynd i'r afael ag unrhyw risgiau posibl.

Hyd:

- ni ddylai'r achos dros newid fod yn fwy na chwe tudalen o destun (3,000 o eiriau)
- ni ddylai achos busnes llawn fod yn fwy nag 20 tudalen o destun (10,000 o eiriau)
- ni ddylai arfarniad llesiant integredig fod yn fwy na 25 tudalen o destun (12,000 o eiriau)

Nid yw'r terfyn geiriau hwn yn cynnwys gwybodaeth ategol, y dylid ei rhoi mewn atodiadau. Mae hyn yn cynnwys dogfennau dylunio, gwybodaeth ariannol a rheoli risg yn ogystal â gwybodaeth arfarnu fanylach. Gallai'r atodiadau hefyd gynnwys crynodeb o'ch ymchwil gefndir, gwybodaeth fodelu, neu ragor o fanylion am sut rydych wedi dewis opsiynau penodol. Eto, cadwch yr atodiadau mor fyr â phosibl.

Croesewir darluniau ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y terfyn tudalennau.

WelTAG byr, safonol a manwl

Fel y nodwyd yn Adran 1, er mwyn helpu rheolwyr prosiect i fabwysiadu ymagwedd gymesur ac osgoi gwybodaeth ddiangen, mae'r diweddariad hwn i WelTAG yn cyflwyno tair lefel wedi'u teilwra i faint, cwmpas a chymhlethdod y prosiect. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **WelTAG byr** – un achos busnes sy'n cyfuno Camau 1-3 mewn un adroddiad.
- **WelTAG safonol** – adroddiadau ar wahân ar Gam 1 (rhestr hir o opsiynau, Cam 2 (rhestr fer o opsiynau a chyfiawnhad dros yr opsiwn terfynol) a Cham 3 (achos busnes llawn).
- **WelTAG manwl** – efallai y bydd angen i raglenni a phrosiectau mwy cymhleth ategu'r arfarniad llesiant integredig gyda gwaith modelu trafnidiaeth a chymarebau cost a budd ychwanegol.

Rhaid i bob prosiect gael ei gefnogi gan arfarniad llesiant integredig cymesur sy'n cynnwys data meintiol ac ansoddol sy'n dangos sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at uchelgeisiau a thargedau llesiant. Dylent hefyd ddarparu gwybodaeth ariannol fanwl am gostau tymor byr a hirdymor y prosiect.

Ffigur 10: WelTAG byr, WelTAG safonol a WelTAG manwl

Camau WelTAG	WelTAG byr	WelTAG safonol	WelTAG manwl
Cam 0 **Achos dros newid**	Achos dros newid	Achos dros newid	Achos dros newid
(cwmpasu)	Mae adroddiad cwmpasu yn nodi pa fath o WelTAG sy'n briodol		
Cam 1 **Achos amlinellol strategol**	Achos busnes + Arfarniad llesiant integredig	Achos amlinellol strategol	Achos amlinellol strategol
Cam 2 **Achos busnes amlinellol**		Achos busnes amlinellol	Achos busnes amlinellol
Cam 3 **Achos busnes** **+** **Arfarniad llesiant integredig**		Achos busnes llawn + Arfarniad llesiant integredig + Asesiadau effaith statudol Cydsyniadau statudol	Achos busnes llawn + Arfarniad llesiant integredig + Cynllun gwerthuso + Asesiadau effaith statudol + Modelu a chymarebau cost a budd
Cam 4 **Cyflawni**	Rheoli'r prosiect neu raglen rheolaeth	Caffael gwaith dylunio ychwanegol Rheoli'r prosiect neu raglen	Cydsyniadau statudol Dylunio ychwanegol Caffael Rheoli'r prosiect neu raglen
Cam 5 **Monitro a gwerthuso**	Adroddiadau perfformiad blynyddol	Adroddiadau perfformiad blynyddol	Adroddiadau perfformiad blynyddol + Gwerthuso

Mae'n bosibl y bydd angen i brosiectau sy'n ymwneud â dylunio seilwaith neu wasanaethau newydd fynd drwy sawl cam wrth fireinio opsiynau dylunio.

Dewis pa fath o WelTAG i'w ddefnyddio

Dylai tîm y prosiect benderfynu pa fath o WelTAG i'w ddefnyddio fel rhan o'r broses gwmpasu. Dylent geisio cyngor gan noddwr y prosiect neu drwy broses gymeradwyo arall.

Nid oes unrhyw reolau pendant ynghylch pa fath o WelTAG i'w ddefnyddio oherwydd bod pob ymyriad trafnidiaeth yn wahanol. Gall rhai prosiectau teithio llesol bach fod yn risg uchel a gall rhai prosiectau cynnal a chadw mwy fod yn eithaf syml.

Dylai polisïau, rhaglenni a chynlluniau trafnidiaeth strategol – megis cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol – ddefnyddio WelTAG byr. Mae hyn oherwydd nad oes angen iddynt fynd trwy gyfres o gamau arfarnu opsiynau ar wahân. Gellir gwneud hyn mewn un cam.

Mae'n bosibl y bydd angen i brosiectau sy'n ymwneud â dylunio seilwaith neu wasanaethau newydd fynd drwy sawl cam wrth fireinio opsiynau dylunio. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yr arfarniad tri cham safonol o opsiynau WelTAG yn fwy defnyddiol.

Dylai prosiectau sydd â risg fawr neu uchel ddefnyddio WelTAG manwl. Dylai prosiectau sydd angen cyllid gan Lywodraeth y DU ddefnyddio TAG. Fodd bynnag, os bydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hefyd, dylai fod datganiad byr ar sut y bydd y prosiect yn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol yng Nghymru a sut y bydd yn cyfrannu at lesiant yng Nghymru.

Dim ond un ffactor yw cost debygol y prosiect wrth benderfynu pa lefel o WelTAG i'w defnyddio ac ni ddylid ystyried hyn ar ei ben ei hun. Gall prosiectau llai costus (o dan £1 miliwn er enghraifft) gyflwyno risgiau sylweddol, tra gall rhai prosiectau drutach fod yn syml o bosibl (yn enwedig os oes llawer o waith blaenorol ar waith eisoes). Er enghraifft, gall prosiect teithio llesol nad yw'n bodloni safonau teithio llesol fod â risg uwch nag un sydd, waeth beth fo'r gost.

Mae rhestr wirio ar wahân i helpu i benderfynu pa lefel o WelTAG i'w defnyddio.

Yr opsiwn gwneud dim byd (neu wneud y lleiafswm)

Wrth gyflwyno'r achos dros newid ac archwilio opsiynau, mae bob amser yn bwysig archwilio'r opsiynau gwneud dim byd, a gwneud cyn lleied â phosibl. Mae'r opsiwn gwneud dim yn golygu hynny'n union, ac mae'r opsiwn gwneud cyn lleied â phosibl yn golygu parhau i gynnal y seilwaith presennol. Ar gyfer pob un o'r opsiynau hyn, mae'n bwysig modelu effaith peidio â gweithredu ar y targedau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys yr effaith ar dargedau newid dulliau teithio ac ar uchelgeisiau sero net, yn ogystal â'r effeithiau ehangach ar lesiant.

WelTAG ar gyfer rhaglenni a pholisïau

Gellir defnyddio proses WelTAG ar gyfer polisïau a rhaglenni yn ogystal ag ar gyfer prosiectau unigol. Mae'r pum cam cynllunio yn ddefnyddiol wrth ddatblygu polisi neu raglen tra gall y broses arfarnu helpu i fireinio polisi neu raglen.

Y prif wahaniaeth yw ei bod yn bosibl na fydd angen achos busnes ar wahân bob amser ar raglenni neu bolisïau. Yn lle hynny, gellir ymgorffori pum dimensiwn achos busnes da yn y polisi neu'r rhaglen. Dylai'r darllenydd allu gweld sut y bydd y polisi neu'r rhaglen yn sicrhau gwerth am arian drwy wneud y canlynol:

- alinio â strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol ehangach
- darparu llesiant yng Nghymru
- bod yn fforddiadwy yn y tymor byr a'r hirdymor
- bod yn gyflawnadwy
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ac adolygu

Bydd angen i raglenni a pholisïau gael eu cefnogi o hyd gan arfarniad llesiant integredig ar wahân ac unrhyw asesiadau effaith statudol. Mae hyn yn dangos sut mae llesiant wedi'i ystyried wrth ddewis opsiynau a'r cynigion terfynol.

Gall y dogfennau ategol hefyd grynhoi'r ymchwil gefndirol a gwybodaeth arall a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r prif bolisi neu raglen.

Dylunio ac arfarnu

Dylai gwaith dylunio (gan gynnwys dewis a mireinio opsiynau) ac arfarnu fynd yn eu blaenau ochr yn ochr. Peidiwch ag aros tan ar ôl i gynllun gael ei ddylunio i wneud yr arfarniad.

Rhaid bod disgrifiad o'r prosiect, rhaglen neu bolisi ar waith cyn y gellir cwblhau'r achos busnes. Mae hyn oherwydd ei bod yn anodd asesu costau, ffactorau risg neu effeithiau llesiant, neu gwblhau'r achos busnes, oni bai bod disgrifiad cynhwysfawr o'r cynllun neu gynllun prosiect ar waith.

Nid yw meddwl yn gynnar am ddylunio byth yn cael ei wastraffu gan ei fod yn helpu i ddeall risg ac yn sicrhau mai dim ond opsiynau ymarferol sy'n cael eu symud ymlaen, gan nodi costau dylunio ar bob cam. Os na chaiff materion dylunio eu hystyried yn ddigon cynnar, mae risg o fwrw ymlaen ag opsiynau a allai gostio'n sylweddol fwy na'r gyllideb sydd ar gael.

Yn yr un modd ag arfarnu, mae dylunio a dichonoldeb technegol yn cynnwys camau sy'n symud o'r cysyniadau cychwynnol i'r dyluniad amlinellol i'r dylunio manwl i gyflawni'r prosiect. Mae cynllun gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yn nodi camau dylunio ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae camau dylunio hefyd ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau trafnidiaeth, gan gynnwys cynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru, sydd yn ei dro yn seiliedig ar safonau'r diwydiant rheilffyrdd a'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB).

Ffigur 11: WelTAG a chynlluniau gwaith eraill

<table>
<tr><th colspan="2">Arfarnu</th><th colspan="2">Dylunio</th></tr>
<tr><th>Camau WelTAG</th><th colspan="2">Cynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru – rheilffyrdd</th><th>Cynllun gwaith RIBA</th></tr>
<tr><td>Cam 0: Achos dros newid</td><td colspan="2" rowspan="3">Cam A: Datblygu gofynion ac opsiynau allbwn</td><td>Cam 0: Diffiniad strategol</td></tr>
<tr><td>(Cwmpasu)</td><td>Cam 1: Paratoi a briffio</td></tr>
<tr><td>Cam 1:
Achos amlinellol strategol</td><td>Cam 2: Dylunio cysyniad</td></tr>
<tr><td>Cam 2: Achos busnes amlinellol</td><td colspan="2">Cam B: Datblygu a dewis opsiynau</td><td rowspan="2">Cam 3: Cydlynu gofodol</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cam 3: Achos busnes llawn</td><td rowspan="2">Cam C: Dyluniad a mlinellol neu ragarweiniol</td><td rowspan="3">Cam D: Prosesau statudol</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Cam 4: Cyflawni
Prosesau statudol</td><td rowspan="2">Cam 4:
Dylunio technegol</td></tr>
<tr><td>Cam E: Dylunio manwl</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2">Cam F: Adeiladu, trosglwyddo’r comisiwn</td><td>Cam 5:
Gweithgynhyrchu ac adeiladu</td></tr>
<tr><td>Cam 6: Trosglwyddo</td></tr>
<tr><td>Cam 5:
Monitro a gwerthuso</td><td colspan="2">Cam G: Cwblhau</td><td>Cam 7:Defnyddio</td></tr>
</table>

Rhaid ystyried dichonoldeb dylunio a thechnegol ar bob cam WelTAG. Er enghraifft:

- **Cam 1: Achos amlinellol strategol** – sicrhau bod opsiynau ar y rhestr fer yn dechnegol ymarferol. Ar gyfer prosiectau mwy, gall hyn gynnwys adroddiad dichonoldeb technegol y mae'n rhaid iddo fod yn gymesur ond a allai gynnwys cynlluniau gofodol 2D yn seiliedig ar fapiau OS gydag adolygiad technegol cychwynnol o'r materion a'r risgiau, yn ogystal ag unrhyw ddadansoddiad gweithredol.

- **Cam 2: Achos busnes amlinellol** – dylai'r gwaith dylunio gynnwys golwg dechnegol fanylach ar bob opsiwn, gan gynnwys ystyriaethau amgylcheddol a geodechnegol. Dylai'r adroddiad achos busnes amlinellol gynnwys gwybodaeth ddylunio fanylach sy'n nodi gofynion gofodol y rhaglen neu'r prosiect, yn ogystal â chydrannau dylunio allweddol, y tir, a gofynion statudol.

- **Cam 3: Achos busnes llawn** – dylai hwn gyd-fynd â dyluniad rhagarweiniol sy'n nodi holl agweddau dylunio allweddol y prosiect, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau. Er y gall fod angen cwblhau rhai manylion o hyd, dylid cyflwyno'r dyluniad ar sail arolwg topograffig llawn a mapiau gyda digon o fanylion i ddod yn sail i gais manwl am ganiatâd neu bwerau cynllunio. Lle bydd prosiectau'n golygu prynu tir yn orfodol, mae'n hanfodol bod y dyluniad amlinellol a'r achos busnes llawn wedi'u datblygu'n fanwl.

Mae safonau dylunio hefyd y mae angen i brosiectau trafnidiaeth gydymffurfio â nhw, gan gynnwys y safonau a nodir yn y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd a Chanllawiau Teithio Llesol Cymru. Gall safonau dylunio lleol at ddibenion cynllunio hefyd fod yn berthnasol i'r gwaith o ddylunio neu uwchraddio seilwaith trafnidiaeth.

Bydd angen i lawer o brosiectau trafnidiaeth, gan gynnwys prosiectau ffyrdd, rheilffyrdd a theithio llesol, gydymffurfio â phwyntiau adolygu porth sy'n benodol i'r dull teithio ac sy'n cyd-fynd yn fras â phroses porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

Adolygiadau porth a sesiynau gwirio

Bydd angen i lawer o brosiectau trafnidiaeth, gan gynnwys prosiectau ffyrdd, rheilffyrdd a theithio llesol, gydymffurfio â phwyntiau adolygu porth sy'n benodol i'r dull teithio ac sy'n cyd-fynd yn fras â phroses porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Er enghraifft, mae gan brosesau adolygu porth Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau'r Flaenraglen Cefnffyrdd saith proses gymeradwyo cyfnod allweddol a thri adolygiad porth mawr. Ar gyfer teithio llesol, mae Trafnidiaeth Cymru yn diffinio pwyntiau gwirio allweddol.

Ar bob cam adolygu porth neu wirio, rhaid i'r tîm cymeradwyo ddarllen a chymeradwyo'r dogfennau WelTAG perthnasol cyn symud i'r cam nesaf.

Dylai sesiynau gwirio neu adolygiadau porth ddefnyddio'r rhestrau gwirio ansawdd i sicrhau bod y prosiect yn cydymffurfio â chanllawiau WelTAG, bod y gwaith angenrheidiol wedi'i wneud, a bod y gwaith yn bodloni'r meini prawf gwerth am arian.

Rhaid peidio â chymeradwyo prosiectau, polisïau neu raglenni nad ydynt yn bodloni'r meini prawf gwerth am arian neu'n peidio â chydymffurfio â'r rhestrau gwirio ansawdd neu'n cyfrannu at gyrraedd targedau newid dulliau teithio.

Mae'n bosibl y bydd sesiynau gwirio'n cyd-fynd â chamau WelTAG, ond efallai y bydd angen gwiriadau dros dro ar brosiectau sy'n defnyddio un cam WelTAG byr cyn cyflwyno'r achos busnes terfynol.

Data ar gael gan Trafnidiaeth Cymru

Gall yr Uned Dadansoddi Geo-ofodol a Thrafnidiaeth Strategol (G-STAT) yn Trafnidiaeth Cymru ddarparu data a dadansoddiadau i hyrwyddwyr cynllun ac awdurdodau sy'n gyfrifol am raglenni, polisïau a phrosiectau trafnidiaeth er mwyn cynllunio trafnidiaeth strategol. Gellir cysylltu â'r uned trwy gstat@tfw.wales.

Ble maent ar waith, dylai Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol eisoes fod wedi gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol, gan ddefnyddio data strategol Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, efallai y bydd angen data pellach ar brosiectau, rhaglenni neu bolisïau penodol.
Mae tri model trafnidiaeth rhanbarthol – De-ddwyrain Cymru, De-orllewin a Chanolbarth Cymru, a Gogledd Cymru – sy'n darparu matricsau galw teithio blwyddyn sylfaen yn ôl cyfnod amser, dull teithio (car, trafnidiaeth gyhoeddus) a phwrpas y siwrnai (cymudo, busnes, arall). Efallai y bydd gan Trafnidiaeth Cymru hefyd fodelau senarios neu ragolygon o'r modelau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am fodelau trafnidiaeth rhanbarthol Cymru ar gael yn: Modelau Trafnidiaeth Rhanbarthol Cymru | Trafnidiaeth Cymru.

Mae'n bosibl y bydd Trafnidiaeth Cymru yn gallu darparu mynediad i'r mathau data canlynol (yn amodol ar gytundeb neu ofynion trwyddedu):

- Cwmpas llwybrau bws / mapiau safleoedd bws
- Crynodeb o'r galw blynyddol am reilffyrdd ar gyfer gorsafoedd penodol neu goridorau rheilffordd penodol yn seiliedig ar ddata gwerthu tocynnau.
- Mapiau cryno data rhwydwaith symudol tarddiad–cyrchfan ar lefel cyfrifiad yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA)

Efallai y bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn gallu darparu dadansoddiadau data megis:

- Mapiau isocron yn dangos hygyrchedd o ran amser teithio ar gyfer mynediad i gyrchfannau penodol yn ôl yr amser o'r dydd, a hynny drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrwy gerdded a beicio. Yn yr un modd, mapiau hygyrchedd o ran amser teithio ar gyfer mynediad cerdded neu feicio i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.
- Dadansoddiadau dalgylch ar gyfer poblogaethau o fewn pellteroedd/amseroedd penodol i safleoedd bws a/neu orsafoedd rheilffordd.
- Niferoedd teithiau ac amcangyfrifon cyfran dull teithio.

Adran 7
WelTAG a chynllunio defnydd tir

Mae'r adran hon yn cynnwys canllawiau ar sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir.

Adran 7: WelTAG a chynllunio defnydd tir

Mae cysylltiad agos rhwng cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir. Mae penderfyniadau ynghylch ble rydym yn adeiladu datblygiadau newydd yn effeithio ar drafnidiaeth, a gall argaeledd trafnidiaeth effeithio ar ddatblygiadau newydd ac mae buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn aml yn dylanwadu ar ddatblygiadau dilynol.

Blaenoriaeth Un Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw lleihau'r angen i deithio drwy ddod â gwasanaethau'n nes at bobl. Mae cynllunio defnydd tir yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon. Gall hyn olygu lleoli gwasanaethau iechyd ac addysg a gwasanaethau eraill newydd yn agos i ble mae pobl yn byw, yn hytrach nag adeiladu ffyrdd mynediad newydd. Gall hefyd olygu neilltuo tir ar gyfer seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy. Gall hefyd olygu derbyn rhywfaint o dagfeydd os oes cyfleoedd eraill i fwy o bobl ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy.

Dylai proses arfarnu opsiynau WelTAG hefyd ystyried opsiynau cynllunio sy'n helpu i gyflawni canlyniadau trafnidiaeth.

Trafnidiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru

Polisi Cynllunio Cymru yw polisi cynllunio cenedlaethol Cymru. Mae'n mynd i'r afael â materion trafnidiaeth fel rhan o gynllunio. Mae'n cydnabod pwysigrwydd strydoedd sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n canolbwyntio ar bobl a'r angen i gynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol wrth leihau'r ddibyniaeth ar geir. Dylai datblygiadau newydd wella ansawdd lle a chreu strydoedd diogel, cymdeithasol deniadol lle mae pobl eisiau cerdded, beicio a mwynhau. Mae'n cynnwys yr hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd. Cefnogir hyn gan ganllawiau cynllunio manwl yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 – Trafnidiaeth.

Mae gan Bolisi Cynllunio Cymru ffocws cadarn ar greu lleoedd – agwedd at ddatblygu sy'n sicrhau bod gan gymunedau'r holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt o fewn cyrraedd hawdd a bod datblygiad o ansawdd uchel. Cefnogir cyflawni hyn drwy'r Siarter Creu Lleoedd – cyfres o egwyddorion ar gyfer creu lleoedd sy'n cynnwys pwysigrwydd meddwl am drafnidiaeth.

Gall rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth gael effaith fawr ar greu lleoedd naill ai drwy wella ansawdd lleoedd neu gael effaith andwyol arnynt. Mae'n bwysig cynnwys meddwl am greu lleoedd yn amcanion y cynllun.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai cynlluniau datblygu nodi a chynnwys polisïau a chynigion yn ymwneud â datblygu seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau cysylltiedig ac, wrth asesu prosiectau trafnidiaeth, dylai awdurdodau cynllunio roi sylw i WelTAG gan nodi ei fod:

> "yn arbennig o bwysig wrth gynllunio prosiectau seilwaith trafnidiaeth strategol, a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau mawr, gan ei bod yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i holl effeithiau'r opsiynau trafnidiaeth. Bydd hynny'n helpu i gael hyd i'r atebion fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant ac yn caniatáu i atebion a mesurau lliniaru gael eu nodi a'u datblygu cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynlluniau. Mae'r broses WelTAG yn ffordd hefyd i sicrhau bod atebion yn briodol ar gyfer trechu'r problemau trafnidiaeth a nodir ac osgoi dewis opsiynau moddol heb dystiolaeth ategol."

Mae Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yn gosod blaenoriaethau ar gyfer defnydd tir. Mae hyn yn rhoi ffocws cryf ar greu lleoedd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn gwneud defnydd effeithlon o dir, ac yn sicrhau bod dewisiadau defnydd tir yn cael eu harwain gan ddealltwriaeth glir o'u heffeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a byddant yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Mae Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yn gosod blaenoriaethau ar gyfer defnydd tir. Mae hyn yn rhoi ffocws cryf ar greu lleoedd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn gwneud defnydd effeithlon o dir, ac yn sicrhau bod dewisiadau defnydd tir yn cael eu harwain gan ddealltwriaeth glir o'u heffeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Dylai'r potensial i ddefnyddio tir ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus neu wrth gludo lwythi ar y rheilffyrdd yn y dyfodol fod yn ystyriaeth mewn datblygiadau newydd.

Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi croesawu teithio llesol yn llawn ac yn pwysleisio ei bwysigrwydd fel ystyriaeth mewn datblygiadau newydd. Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod cynigion datblygu, drwy eu dyluniad a'u seilwaith ategol, yn blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer mynediad a symudiad drwy gerdded a beicio. Dylai dyluniad cynigion datblygu, yn unol â'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy, ddechrau drwy nodi'r cysylltiadau cerdded a beicio byrraf a mwyaf deniadol ac yna mynd i'r afael â'r anghenion trafnidiaeth eraill.

Prosiectau WelTAG sydd angen caniatâd cynllunio

Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau trafnidiaeth sy'n cynnwys seilwaith wedi'i uwchraddio neu seilwaith newydd yn ogystal ag unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer cyllid o ffynonellau Cymreig neu'r DU.

Yn ddelfrydol, dylai caniatâd cynllunio fod ar waith cyn gwneud y cais terfynol am gyllid, ond yn ymarferol efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl. Ar gyfer prosiectau mwy, fel arfer ceir caniatâd cynllunio ar ôl cwblhau achos busnes Cam 3. Os bydd angen caniatâd ar y prosiect ond nad oes ganddo eisoes, dylai'r adran yn yr achos busnes sy'n ymwneud â chyflawnadwyedd hefyd nodi unrhyw ofynion ar gyfer caniatâd cynllunio ac amlygu unrhyw risgiau o beidio â chael caniatâd neu o oedi posibl yn y broses.

Mae'r broses cynllunio defnydd tir yn dilyn trywydd tebyg yn fras i broses cynllunio trafnidiaeth WelTAG, sef o ganiatâd amlinellol i ganiatâd manylach a ategir gan yr asesiadau effaith angenrheidiol. Efallai y bydd gofynion monitro hefyd.

Gall rhai prosiectau trafnidiaeth ddod o fewn cwmpas datblygiad a ganiateir. Fodd bynnag, bydd angen i'r rhain ddilyn canllawiau WelTAG o hyd a chael eu hategu gan arfarniad llesiant integredig.

WelTAG ac asesiadau effaith statudol

Mae cynllunio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth yn gofyn am asesiadau effaith i ddangos sut mae materion amgylcheddol a llesiant wedi cael eu hystyried.

Mae'r angen am asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol yn deillio o ddyletswyddau statudol awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill o dan amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y canlynol:

- Deddf Cymru 2017
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Rheoliadau Cynefinoedd)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002 a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Teithiol Llesol (Cymru) 2013
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006
- Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol)

Ni ddylai fod angen dyblygu gwybodaeth ar gyfer gofynion cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir. Bydd llawer o'r wybodaeth yn ateb y ddau ddiben.

Fel y nodwyd yn Adran 4, nid yw'r arfarniad llesiant integredig yn disodli'r angen am asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol eraill ond dylai grynhoi canlyniadau'r rheini.

Dylai rheolwr y prosiect ystyried cynllunio trafnidiaeth a gofynion cynllunio defnydd tir yn ystod y cam cwmpasu.

Os gallai fod angen caniatâd cynllunio ar brosiect strategol hefyd, dylid ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y briff ar gyfer yr arfarniad llesiant integredig i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag asesu amgylcheddol strategol wedi'u cynnwys yn y gwaith. Mae'r meini prawf ar gyfer asesiadau amgylcheddol strategol wedi'u nodi yn y rheoliadau perthnasol, gan gynnwys yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau tymor byr, canolig a hir, effeithiau parhaol a dros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronnol a synergaidd ar faterion, gan gynnwys bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd, a'r rhyngberthynas rhwng y materion hyn.

Cyn belled â bod yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer asesiad amgylcheddol strategol wedi'i chynnwys yn yr arfarniad llesiant, ni ddylai fod angen asesiad amgylcheddol strategol ar wahân neu arfarniad cynaliadwyedd integredig.

Lle mae angen i ddatblygwyr ystyried ymyriadau trafnidiaeth fel rhan o ddatblygiad newydd, gallai egwyddorion craidd proses WelTAG fod yn ddefnyddiol wrth lunio'r cynigion hynny.

Strategaethau gweithredu trafnidiaeth

Darperir strategaethau gweithredu trafnidiaeth gan ddatblygwyr i gefnogi ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Mae hyn fel arfer pan fydd datblygwyr wedi cael cais i ddarparu seilwaith trafnidiaeth ychwanegol fel rhan o brosiect datblygu.

Mae trafnidiaeth yn aml yn hanfodol i ddatblygiadau newydd – yn enwedig datblygiadau yn y sector cyhoeddus a datblygiadau masnachol y mae angen iddynt fod yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl. Yn aml, bydd angen i geisiadau datblygu ystyried opsiynau trafnidiaeth presennol, ac effaith datblygiadau newydd ar yr opsiynau hynny.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 18 (TAN 18) yn gofyn i ddatblygwyr ddarparu strategaethau gweithredu trafnidiaeth. Nid yw TAN 18 yn sôn yn benodol am WelTAG gan y cafodd ei ysgrifennu cyn y canllawiau WelTAG cyntaf.

Lle mae angen i ddatblygwyr ystyried ymyriadau trafnidiaeth fel rhan o ddatblygiad newydd, gallai egwyddorion craidd proses WelTAG fod yn ddefnyddiol wrth lunio'r cynigion hynny.

Materion cynllunio defnydd tir mewn astudiaethau WelTAG

Rhaid ystyried materion cynllunio defnydd tir ar bob cam o WelTAG. Er enghraifft:

- **achos dros newid Cam 0** – dylai ystyried nid yn unig Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ond hefyd blaenoriaethau Cymru'r Dyfodol a'r cynllun datblygu lleol, y cynllun trafnidiaeth lleol neu'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol neu fap rhwydwaith teithio llesol.
- **WelTAG safonol neu WelTAG byr** – pan fo prosiect eisoes wedi'i nodi mewn cynllun datblygu lleol, cynllun trafnidiaeth lleol neu gynllun trafnidiaeth rhanbarthol, ar fap rhwydwaith teithio llesol sydd wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion ac yn amodol ar ymgynghoriad, neu yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, efallai y bydd dim angen proses gymhleth o arfarnu'r opsiynau. Defnyddiwch y broses WelTAG byr ac eglurwch sut y dewiswyd eich opsiwn terfynol a chyfeiriwch at waith datblygu blaenorol neu at y ddogfen gyfeirio briodol. Dylech hefyd ddangos sut yr ydych wedi ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid.
- **achos busnes** – dylai adran cydweddiad strategol yr achos busnes esbonio sut y bydd y rhaglen neu brosiect yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cynllunio defnydd tir lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Os oes angen caniatâd cynllunio ar y prosiect (gweler isod), dylid rhoi unrhyw asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol eraill ar waith cyn cwblhau'r achos busnes.
- **amodau cynllunio** – gellir sicrhau buddion llesiant trwy amodau cynllunio a hefyd o bosibl trwy amodau contract (e.e. hyfforddiant a sgiliau neu ddigwyddiadau cymunedol). Dylai adran cyflawnadwyedd yr achos busnes esbonio sut y bydd buddion llesiant yn cael eu sicrhau gan ba bynnag lwybr, a dylai'r adran ar reolaeth egluro sut y caiff hynny ei fonitro neu ei orfodi.

Sylwch efallai na fydd map rhwydwaith teithio llesol yn rhoi digon o fanylion i lywio'r broses o ddewis, dylunio a darparu datrysiad teithio llesol penodol. Os na chynhaliwyd arfarniad llawn o'r opsiynau, yna dylid nodi'r cyfiawnhad dros ddewis a dyluniad yr opsiwn terfynol yn achos busnes WelTAG byr neu dylai fod yn rhan o'r cais am grant teithio llesol. Dylai'r rhain esbonio pwy awdurdododd y dewis a'r meini prawf y tu ôl iddo (gweler Adran 8).

Gall rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth gael effaith fawr ar greu lleoedd naill ai drwy wella ansawdd lleoedd neu drwy gael effaith andwyol arnynt. Mae'n bwysig integreiddio meddwl am greu lleoedd mewn ymyriadau trafnidiaeth.

Gall rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth gael effaith fawr ar greu lleoedd naill ai drwy wella ansawdd lleoedd neu drwy gael effaith andwyol arnynt. Mae'n bwysig integreiddio meddwl am greu lleoedd mewn ymyriadau trafnidiaeth.

Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol

Mae cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol yn chwarae rhan ganolog wrth helpu i alinio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth.

Yng Nghymru, mae gan gyd-bwyllgorau corfforedig gyfrifoldeb i baratoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gyflawni'r polisïau yn y cynllun. Dylai'r cynlluniau hynny hybu ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i'r ardal a gwmpesir gan y cyd-bwyllgorau corfforedig, o'r ardal honno ac oddi fewn iddi, a chynnwys polisïau ar gyfer gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Rhaid iddynt hefyd ystyried anghenion trafnidiaeth pobl anabl (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a phobl sydd â phroblemau symudedd. Yn y cynllun, rhaid i awdurdodau lleol hefyd gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol.

Yng Nghymru, mae gan gyd-bwyllgorau corfforedig gyfrifoldeb i baratoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gyflawni'r polisïau yn y cynllun.

Dylid defnyddio egwyddorion WelTAG i lywio'r broses o gynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys dull strwythuredig o ddatblygu'r cynllun a phum elfen achos busnes.

Nid oes angen darparu achos busnes ar wahân ar gyfer cynllun trafnidiaeth rhanbarthol – yn lle hynny, gellir ymgorffori dull WelTAG i'r cynnwys. Fodd bynnag, rhaid i gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol gael eu hategu gan arfarniad llesiant integredig sy'n cynnwys gwybodaeth am effaith y cynllun ar yr amgylchedd.

Mae'n bosibl y bydd prosiectau unigol sydd wedi'u cyflwyno o dan gynllun trafnidiaeth rhanbarthol hefyd yn gofyn am yr asesiadau effaith statudol perthnasol, megis asesiadau effaith yn ymwneud â'r amgylchedd, y Rheoliadau Cynefinoedd, sŵn neu ansawdd aer, neu asesiadau effaith eraill, fel rhan o'r broses ddylunio fanwl.

Adran 8
WelTAG ar gyfer dulliau trafnidiaeth penodol

Mae'r adran hon yn esbonio sut mae WelTAG yn berthnasol i ganllawiau cynllunio penodol ar deithio llesol, bysiau, ffyrdd a rheilffyrdd, a chynnal a chadw.

Adran 8: WelTAG ar gyfer dulliau trafnidiaeth penodol

Mae WelTAG yn nodi egwyddorion cynllunio ac arfarnu y gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw fath o bolisi, rhaglen neu brosiect trafnidiaeth. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o brosiectau, rhaglenni neu bolisïau trafnidiaeth yng Nghymru yn rhai aml-ddull neu'n cynnwys integreiddio rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol o ofynion dull-benodol. Gallai'r rhain gynnwys gofynion cynllunio prosiect, safonau dylunio neu ofynion rheoliadol.

Mae WelTAG wedi'i gynllunio i gyd-fynd yn fras â'r rhain. Mae'r un dull fesul cam yn berthnasol, yn ogystal â'r angen i ddarparu achos busnes cadarn a'r angen i gynnal yr asesiadau effaith perthnasol.

WelTAG a theithio llesol

Mae angen ystyried teithio llesol ym mhob darpariaeth trafnidiaeth newydd. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â theithio llesol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau teithio llesol cynhwysfawr sy'n cwmpasu'r dyletswyddau a'r egwyddorion ac yn darparu canllawiau manwl ar ddylunio a chynllunio cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys teithio llesol fel rhan o gynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd.

Mae mapiau rhwydwaith teithio llesol yn elfen graidd o deithio llesol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fapio, cynllunio ar gyfer ac adolygu mapiau rhwydwaith teithio llesol ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol sy'n gwneud cais am gyllid o'r gronfa teithio llesol. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â WelTAG.

Mae materion penodol i'w hystyried wrth gynllunio prosiectau teithio llesol gan ddefnyddio WelTAG yn cynnwys y canlynol:

- **mapiau rhwydwaith teithio llesol** – lle mae prosiect yn canolbwyntio ar gyflawni cynllun teithio llesol penodedig sydd eisoes wedi'i nodi a'i gytuno mewn mapiau rhwydwaith teithio llesol cymeradwy, bydd angen o hyd fod achos dros newid a phroses WelTAG i lywio dyluniad manwl y llwybr
- **WelTAG byr** – dim ond achos busnes WelTAG byr a ategir gan arfarniad llesiant integredig ac unrhyw asesiadau effaith statudol y dylai fod eu hangen ar y rhan fwyaf o brosiectau teithio llesol
- **dull integredig** – ar gyfer prosiectau trafnidiaeth aml-ddull, gan gynnwys ffyrdd neu reilffyrdd, dylid integreiddio opsiynau teithio llesol i gynllunio'r prosiect o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na'u hychwanegu ar y diwedd

Felly, p'un a yw llwybr wedi'i osod ar fap rhwydwaith teithio llesol ai peidio, dylai pob prosiect sy'n ymwneud â theithio llesol ddechrau gydag achos dros newid Cam 0. Dylai hwn gynnwys y canlynol:

- nodi'r broblem benodol y mae'r cynllun yn bwriadu mynd i'r afael â hi (fel gwella mynediad i gyfleuster cymunedol, ysgol neu gyfnewidfa drafnidiaeth)
- amcan penodol y cynllun (nid yw'n ddigon gwella'r defnydd o deithio llesol yn unig)
- esboniad o pam mae'r llwybr hwn wedi cael blaenoriaeth o gymharu ag eraill ar y map rhwydwaith teithio llesol
- crynodeb byr o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys unrhyw adborth ar y llwybr o'r broses o greu'r map rhwydwaith teithio llesol

Fel gyda phob ymyriad trafnidiaeth, dylai'r achos dros newid gael ei ddilyn gan ymarfer cwmpasu. Dylai hwn gynnwys cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid. Dylai nodi unrhyw heriau dylunio technegol penodol a all godi a sut yr eir i'r afael â nhw, a chytuno ar unrhyw ofynion gwirio gyda Trafnidiaeth Cymru, er enghraifft.

Bydd angen i'r arfarniad llesiant integredig fynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro rhwng amcanion llesiant – er enghraifft, gallai gwella llwybrau beicio ei gwneud yn anoddach i bobl â phroblemau symudedd gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn ei dro yn creu her dylunio.

Fel rhan o'r ymarfer cwmpasu, dylech gytuno a fydd angen achos busnes un cam (WelTAG byr) ar y prosiect neu efallai y bydd angen mwy o waith i fireinio opsiynau.

Fel rhan o'r ymarfer cwmpasu, dylech gytuno a fydd angen achos busnes un cam (WelTAG byr) ar y prosiect neu efallai y bydd angen mwy o waith i fireinio opsiynau. Roedd y WelTAG byr cam sengl wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer prosiectau teithio llesol. Fodd bynnag, yn aml gall dylunio darpariaeth teithio llesol fod yn broses gymhleth gyda blaenoriaethau gwahanol gan ddefnyddwyr ffyrdd gwahanol i faterion cydraddoldeb, amgylcheddol a diogelwch. Mewn llawer o achosion, mae'r map rhwydwaith teithio llesol yn darparu llwybrau dangosol yn unig ac nid yw'n darparu sail ddigon manwl ar gyfer datblygu datrysiad teithio llesol penodol.

Er y gall achos busnes un cam fod yn ddefnyddiol, efallai y bydd angen archwilio opsiynau gwahanol ar gyfer prosiectau teithio llesol ac egluro pam y dewiswyd un opsiwn fel rhan o'r achos busnes.

Efallai na fydd angen achos busnes ar brosiectau teithio llesol syml iawn, ond gallant wneud cais am gyllid drwy'r broses ymgeisio. Fodd bynnag, mae'r broses honno'n gofyn cwestiynau tebyg iawn i'r rhai a ddefnyddir yn WelTAG felly mae'n dal yn bwysig meddwl am gydweddiad strategol, llesiant, cyflawnadwyedd, fforddiadwyedd a rheolaeth.

WelTAG ar gyfer rhaglenni a phrosiectau bysiau yng Nghymru

Gellir defnyddio WelTAG i helpu i gynllunio buddsoddiad mewn bysiau yng Nghymru, gan gynnwys cynllunio rhwydwaith a chynllunio seilwaith. Mae egwyddorion allweddol WelTAG ar gyfer cynllunio fesul cam ynghyd â defnyddio achos busnes yr un mor berthnasol i fysiau ag i unrhyw fath arall o drafnidiaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod bysiau yn aml yn cael eu hintegreiddio i brosiectau cynllunio trafnidiaeth eraill megis creu cyfnewidfeydd trafnidiaeth neu docynnau integredig.

Mae prosiectau bysiau, fel gorsaf fysiau newydd Caerdydd, hefyd yn dod ag amrywiaeth o bartneriaid ynghyd, gan gynnwys y sector preifat, awdurdodau lleol, datblygwyr a buddsoddwyr yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Mae cynllunio rhaglenni a phrosiectau'n effeithiol, cyfathrebu a llywodraethu prosiect da, integreiddio â chynllunio, ac achos busnes cryf i gyd yn hanfodol i brosiectau o'r fath.

Mae materion penodol i'w hystyried wrth gynllunio rhaglenni a phrosiectau bysiau gan ddefnyddio WelTAG yn cynnwys:

- **ymgysylltu â gweithredwyr** – yn ogystal ag ymgysylltu'n ehangach, dylai'r cynllun ymgysylltu ar gyfer unrhyw raglen neu brosiect sy'n cynnwys gwasanaethau bysiau a seilwaith gynnwys cynlluniau i ymgysylltu â gweithredwyr gan fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn partneriaeth â gweithredwyr ac mae'n hanfodol deall eu hanghenion a'u safbwyntiau. Mae angen ymgysylltu â datblygwyr ac unrhyw bartneriaid cyflenwi eraill hefyd fel rhan o'r broses.
- **integreiddio cynllunio gwasanaethau â datblygu seilwaith** – yn gynyddol, mae prosiectau trafnidiaeth yn cyfuno cynllunio gwasanaethau â seilwaith. Yn wir, efallai na fydd fawr o ddiben uwchraddio gwasanaethau os nad yw'r seilwaith gofynnol ar waith.
- **cynllunio ar gyfer datgarboneiddio** – mae cynllun bach Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn gosod uchelgeisiau ar gyfer datgarboneiddio bysiau felly mae'n rhaid i gynlluniau rhwydwaith a seilwaith yn y dyfodol ragweld hynny o'r cychwyn cyntaf.

WelTAG ar gyfer rhaglenni a phrosiectau rheilffyrdd yng Nghymru

Dylai arfarnu prosiectau rheilffyrdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio â WelTAG, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn ogystal â'r canlyniadau dylunio a pheirianneg sy'n gysylltiedig â chynllun camau gwaith Trafnidiaeth Cymru neu brosiect PACE (Prosiect Cyflymu mewn Amgylchedd Rheoledig) Network Rail. Yn ddiweddar, mae PACE wedi disodli GRIP (Llywodraethu ar gyfer Prosiectau Buddsoddi mewn Rheilffyrdd). Mae'r aliniad â chamau WelTAG wedi'i nodi isod.

Oherwydd y gost a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau rheilffyrdd, rhaid cael mwy o sicrwydd ynghylch dichonoldeb yr opsiwn yn gynnar yn y prosiect er mwyn cefnogi diffiniad gwell o gostau a risgiau'r prosiect.

Mae mewnbynnau peirianneg allweddol i'r arfarniad ar bob cam yn cynnwys:

- adroddiad dylunio dichonoldeb i gefnogi'r rhestr fer o opsiynau ar ddiwedd Cam 1 WelTAG, sef yr achos busnes amlinellol strategol
- adroddiad dewis opsiynau i gefnogi dewis opsiwn a ffefrir fel rhan o Gam 2 WelTAG, yr achos busnes amlinellol
- datblygu opsiwn sengl / dyluniad rhagarweiniol i gefnogi Cam 3 WelTAG, sef yr achos busnes llawn

Ffigur 12: Aliniad rhwng WelTAG a chynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru, PACE a GRIP

Cam WelTAG	Cam 1 Achos amlinellol strategol		Cam 2 Achos busnes amlinellol	Cam 3 Achos busnes llawn	Cam 4 Cyflawni		Cam 5 Monitro a gwerthuso	
Camau cynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru	Cam A: Datblygu gofynion ac opsiynau allbwn		Cam B: Datblygu a dewis opsiynau	Cam C: Dyluniad rhagarweiniol	Cam E: Dylunio manwl	Cam F: Adeiladu, trosglwyddo'r comisiwn	Stage G: close out	
				Cam D*: Prosesau statudol				
Network Rail PACE	Diffiniad o'r rhaglen strategol		Datblygu a dewis opsiynau	Datblygu a dylunio'r prosiect		Cyflawni'r prosiect	Prosiect yn cau	
Network Rail GRIP	1. Diffiniad o'r allbwn	2. Dichonoldeb y prosiect	3. Dewis opsiwn	4. Datblygu opsiwn sengl	5. Dylunio manwl	6. Adeiladu, profi, comisiynu	7. Rhoi'r cynllun yn ôl	8. Cwblhau

*Mae achos busnes llawn Cam 3 WelTAG a dyluniad rhagarweiniol Cam C fel arfer yn fewnbwn i Gam D.

WelTAG a rhaglenni a phrosiectau ffyrdd

Yn yr un modd â'r holl brosiectau, rhaglenni a pholisïau trafnidiaeth eraill, rhaid i gynlluniau ffyrdd ddangos eu bod yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sy'n golygu lleihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol, cyflawni yn erbyn targedau ar gyfer newid dulliau teithio a datgarboneiddio, a chymhwyso'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy. Mae hyn yn dechrau gyda gwneud y defnydd gorau o seilwaith presennol cyn buddsoddi mewn seilwaith newydd. Rhaid i raglenni a phrosiectau ffyrdd hefyd gyflawni yn erbyn y pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a mynd i'r afael â materion iechyd drwy wella ansawdd aer a lleihau sŵn.

Yn ein hymateb i'r Adolygiad Ffyrdd, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod pedwar prawf ar gyfer buddsoddi mewn ffyrdd, gan gynnwys newid dulliau teithio, gwell diogelwch drwy newidiadau ar raddfa fach, addasu ffyrdd i effaith y newid yn yr hinsawdd, a darparu mynediad i ganolfannau gweithgarwch economaidd sy'n cefnogi newid dulliau teithio.

Mae'n hanfodol eu bod yn cyflwyno tystiolaeth ansoddol a meintiol ystyriol o fuddion llesiant cynlluniau, gan ddefnyddio'r fframwaith arfarniad llesiant integredig. Dylai hyn esbonio sut mae'r cynllun wedi ystyried canlyniadau llesiant a sut yr aethpwyd i'r afael â nhw wrth ddylunio'r cynllun. Nid yw'n dderbyniol dibynnu ar honiad yn unig, na darparu tablau blychau ticio.

Mae cynlluniau ffyrdd hefyd yn codi ystod eang o faterion dylunio mewn perthynas â chreu lleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys graddfa, lleoliad, dyluniad, deunyddiau a màs seilwaith, a'r effaith ar gymunedau, gan gynnwys gwahanu. Yn aml, mae effeithiau mawr ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, priddoedd, dŵr, treftadaeth, tirwedd a threflun, yn ogystal ag effeithiau sŵn ac ansawdd aer. Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r rhain yn llawn fel rhan o'r broses arfarnu llesiant integredig, a'r asesiadau effaith statudol cysylltiedig.

Ystyriaethau allweddol ar gyfer cynlluniau ffyrdd

Rhaid i bob prosiect awdurdod lleol a phob rhaglen a phrosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru gymryd camau rhesymol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio. Mae hyn yn cynnwys prosiectau i wella neu gynnal a chadw'r briffordd, neu brosiectau sy'n cynnwys darparu seilwaith newydd. Mae canllawiau pellach wedi'u nodi yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (sy'n cynnwys dyletswydd i wella cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr wrth wella neu gynnal a chadw'r briffordd) a'r Canllawiau Teithio Llesol. Hyd yn oed os byddwch yn dewis ateb ffordd fel rhan o arfarniad WelTAG, rhaid i chi roi ystyriaeth i anghenion cerddwyr a beicwyr.

All local authority projects and all programmes and projects funded by Welsh Government must make provision for active travel.

WelTAG ar gyfer rhaglenni cynnal a chadw

Yn gyffredinol, nid yw proses WelTAG wedi'i chynllunio ar gyfer prosiectau unigol sy'n ymwneud yn bennaf â chynnal a chadw ac atgyweirio'r seilwaith presennol.

Fodd bynnag, rhaid i bob prosiect sy'n ymwneud ag uwchraddio seilwaith presennol neu seilwaith newydd fynd i'r afael â chostau cynnal a chadw a rheoli hirdymor y seilwaith hwnnw fel rhan o'r achos busnes. Rhaid ystyried opsiynau ar gyfer cynnal a chadw, rheoli neu uwchraddio'r seilwaith presennol fel rhan o'r broses arfarnu opsiynau ar gyfer rhaglenni neu brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith newydd.

Gallai WelTAG hefyd lywio rhaglenni a pholisïau cynnal a chadw mawr ar gyfer seilwaith presennol er mwyn, er enghraifft, helpu i wneud y gorau o'r buddion llesiant o drefniadau cynnal a chadw, neu gynllunio gwaith atgyweirio yn y dyfodol mewn ffordd sy'n gwella buddion ar gyfer teithio llesol.

Termau defnyddiol a thalfyriadau

Hygyrch – gwasanaethau trafnidiaeth a seilwaith sy'n bodloni'r safonau polisi a rheoleiddio perthnasol ar gydraddoldeb mynediad, hawliau dynol a'r Gymraeg, gan gydnabod y model cymdeithasol o anabledd.

Map rhwydwaith teithio llesol – er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu mapiau o lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig yn eu hardal, ac o'r llwybrau a chyfleusterau teithio llesol gwell sydd eu hangen i greu rhwydweithiau integredig ar gyfer teithio llesol yn y dyfodol. Rhaid cyflwyno'r mapiau hyn i Weinidogion Cymru ac mae dyletswyddau i greu gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Os yw llwybr eisoes wedi'i nodi mewn mapiau llwybrau teithio llesol, efallai na fydd angen arfarniad helaeth o'r opsiynau.

Arfarnu – dyma'r broses o asesu costau, buddion a risgiau ffyrdd amgen o gyflawni amcanion y llywodraeth. Mae'n helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall effeithiau, cyfnewidiadiau ac effaith gyffredinol bosibl opsiynau drwy ddarparu sylfaen dystiolaeth wrthrychol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Newid ymddygiad – mae Blaenoriaeth Tri o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymwneud ag annog pobl i wneud y newid i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Mae mynd i'r afael â newid ymddygiad yn cynnwys deall pam mae pobl yn ymddwyn fel y maent, pennu rhwystrau a chymhellion i newid, a nodi atebion neu ymyriadau i ysgogi newid.

Cymhareb cost a budd – dyma'r broses o asesu gwerth presennol costau cyfalaf a gweithredu o'u cymharu â gwerth ariannol presennol manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol rhaglen neu brosiect. Caiff rhai effeithiau eu cwmpasu'n ddigonol gan ddadansoddiad cost a budd ond nid yw eraill. Mae'n bwysig bod y gwerthoedd yn y cymarebau cost a budd yn cyd-fynd â'n gwerthoedd yng Nghymru, felly lle mae'n ofynnol i brosiectau ddarparu cymarebau cost a budd, rhaid iddynt ddarparu dwy gymhareb cost a budd – un sy'n cynnwys arbedion amser teithio fel budd, ac un sy'n eithrio buddion arbedion amser teithio.

Datgarboneiddio – camau gweithredu sydd eu hangen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a symud tuag at economi carbon isel. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i allyriadau carbon sero net erbyn 2050.

Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd – yn cynnwys gwybodaeth am safonau cyfredol sy'n ymwneud â dylunio, asesu a gweithredu traffyrdd a chefnffyrdd amlbwrpas yn y Deyrnas Unedig. Wrth roi safonau'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd ar waith yng Nghymru, mae'n bwysig hefyd adlewyrchu blaenoriaethau polisi Cymru.

Modelu galw – modelu trafnidiaeth a ddefnyddir i ragweld patrymau teithio a galw.

Asesiad o'r effaith amgylcheddol – y broses o asesu effaith prosiect ar yr amgylchedd a chanfod ffyrdd o wneud y mwyaf o fuddion ac osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau niweidiol. Efallai y bydd angen asesiad o'r effaith amgylcheddol ar brosiectau trafnidiaeth unigol sydd angen caniatâd cynllunio. Gall yr wybodaeth o'r asesiad o'r effaith amgylcheddol lywio arfarniad llesiant integredig.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb – y broses o asesu effaith rhaglen neu brosiect ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a chanfod ffyrdd o sicrhau'r buddion mwyaf posibl ac osgoi neu liniaru unrhyw niwed posibl. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn llywio'r broses o arfarnu llesiant.

Gwerthuso – asesiad systematig o gynllun, gweithrediad a chanlyniadau ymyriad, i ddeall ei effeithiau a beth y gellir ei wella. Mae'n gyfle i edrych yn ôl ar ba wahaniaeth a wnaeth y rhaglen neu'r prosiect, a pha wersi y gellid eu dysgu ar gyfer y dyfodol, a gobeithio darparu cyngor cymheiriaid i eraill. Mae gwybodaeth o adroddiadau gwerthuso hefyd yn ein helpu i fireinio ein prosesau grantiau ar gyfer y dyfodol.

Pum ffordd o weithio – mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt a dangos sut y maent wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio yw hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

Llyfr Gwyrdd – canllawiau Trysorlys EF ar sut i arfarnu deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, rhaglenni a phrosiectau. Mae'n darparu offer i helpu i wneud penderfyniadau ac yn rhoi sicrwydd i'r swyddog cyfrifyddu fod arian cyhoeddus wedi'i ddefnyddio'n ddoeth.

GRIP (Llywodraethu ar gyfer Prosiectau Buddsoddi mewn Rheilffyrdd) – datblygodd Network Rail GRIP i reoli prosiectau buddsoddi sy'n gwella neu'n adnewyddu'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol (yn hytrach na'r rhai sy'n ymwneud â chynnal a chadw rheolaidd ar y rheilffyrdd). Fe'i datblygwyd i leihau a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau o'r fath. Mae GRIP yn rhannu prosiect yn wyth cam gwahanol. Mae'r dull gweithredu cyffredinol yn cael ei ysgogi gan gynnyrch, yn hytrach na phroses, ac, o fewn pob cam, cyflwynir set o gynhyrchion y cytunwyd arnynt. Mae bellach wedi'i ddiweddaru gan PACE (gweler isod).

Asesiad o'r effaith ar dreftadaeth – y broses o asesu effaith rhaglen neu brosiect ar asedau amgylchedd hanesyddol a chanfod ffyrdd o sicrhau'r buddion mwyaf posibl ac osgoi neu liniaru unrhyw niwed. Gall asesiad o'r effaith ar dreftadaeth lywio'r broses o arfarnu llesiant.

Seilwaith - mae seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys yr holl bethau sy'n galluogi gwasanaethau a gweithgareddau trafnidiaeth i weithredu, gan gynnwys strydoedd a ffyrdd, rheilffyrdd, a rhwydweithiau teithio llesol fel llwybrau beicio a llwybrau troed. Mae hefyd yn cynnwys adeileddau cysylltiedig megis gorsafoedd, pontydd, argloddiau, meysydd parcio, arwyddion, signalau, safleoedd bysiau a chyfnewidfeydd trafnidiaeth yn ogystal â'r ystâd feddal - tir a mannau gwyrdd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae porthladdoedd a harbyrau, meysydd awyr, a chyfleusterau cludo llwythi a logisteg hefyd yn bwysig.

Arfarniad llesiant integredig – y broses o asesu effaith cynigion newydd ar lesiant, gan gynnwys cymdeithas, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. Mae'n cynnwys deall y manteision a'r risgiau ac edrych a oes modd cymryd camau i osgoi neu liniaru unrhyw niwed posibl. Gall yr asesiad effaith helpu i lywio'r broses arfarnu.

Fframwaith arfarniad llesiant integredig – set o fesurau ansoddol a meintiol ar gyfer asesu effaith rhaglen neu brosiect ar lesiant yng Nghymru. Daw'r mesurau ansoddol o'r uchelgeisiau llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r mesurau meintiol yn seiliedig ar fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (gweler isod), a ddefnyddir i fonitro cynnydd ar ein huchelgeisiau a'n targedau llesiant, gan gynnwys newid dulliau teithio a symud i sero net.

Llwybr Newydd – dyma deitl Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Dylai lywio pob agwedd ar WelTAG, o'r achos dros newid drwy arfarnu'r opsiynau, yr achos busnes, cyflwyno'r rhaglen neu'r prosiect, ac unrhyw waith monitro neu werthuso terfynol.

Monitro – y broses o gasglu data i asesu a yw'r rhaglen neu brosiect yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd. Mae'n wahanol i werthuso, sy'n edrych ar ba wahaniaeth y mae'r rhaglen neu brosiect wedi'i wneud.

Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth – yn nodi blaenoriaethau buddsoddi Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Nodau llesiant cenedlaethol – mae'r saith nod llesiant cenedlaethol wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2005. Mae'r rhain fel a ganlyn: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Adlewyrchir y rhain yn y pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Dangosyddion llesiant cenedlaethol – y 50 dangosydd sy'n dangos cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar y rhain yn flynyddol.

Cymru Sero Net – yr ail gynllun lleihau allyriadau ar gyfer Cyllideb Carbon 2 (2021-2025) yn gosod y sylfaen i wneud Cymru yn sero net erbyn 2050 (gweler yr atodiad).

Amcan – datganiad byr lefel uchel, mesuradwy sy'n egluro pa wahaniaeth y bydd rhaglen neu brosiect yn ei wneud.

Arfarniad o'r opsiynau – y broses o nodi rhestr hir o opsiynau i gyflawni amcanion penodol, yna defnyddio proses arfarnu i gyfyngu'r rhestr honno i restr fer ac, yn olaf, opsiwn a ffefrir. Gall y broses gynnwys cyfuno opsiynau.

Canlyniadau ac allbynnau – canlyniad trafnidiaeth yw canlyniad neu effaith gwneud rhywbeth, fel mwy o bobl yn cerdded a beicio. Mae allbwn trafnidiaeth yn rhywbeth y mae rhaglen neu brosiect yn ei ddarparu, megis llwybr beicio wedi'i uwchraddio.

PACE (Prosiect Cyflymu mewn Amgylchedd Rheoledig) – yn disgrifio sut mae Network Rail yn rheoli prosiectau buddsoddi ar y rhwydwaith rheilffyrdd, a ddatblygwyd i leihau a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni prosiectau.

Cynllunio – mae cynllunio trafnidiaeth yn cwmpasu'r holl weithgareddau sydd eu hangen i ddatblygu rhaglen neu brosiect trafnidiaeth, gan gynnwys cynlluniau trafnidiaeth a'r gwaith sydd ei angen i gynllunio prosiectau penodol. Mae cynllunio defnydd tir yn cyfeirio at y gweithgareddau sydd eu hangen i gynllunio ar gyfer y ffordd y caiff tir ei ddefnyddio, drwy'r broses cynllunio a rheoli datblygu. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau lleol a chydsyniad statudol. Mae angen i gynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir gydweithio.

Prosiect – yn y ddogfen hon, mae'r term 'prosiect' yn cyfeirio at brosiectau, pecynnau gwaith, rhaglenni a pholisïau. Mae achos busnes WelTAG, camau cynllunio prosiect ac asesiad llesiant integredig yn berthnasol i bolisïau a rhaglenni yn ogystal â phrosiectau unigol.

Rheolwr prosiect – mae WelTAG wedi'i gynllunio'n bennaf i arwain unrhyw un sy'n cymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu rhaglen neu brosiect trafnidiaeth, pecyn o waith, polisi neu raglen, a chyflwyno'r achos drosti i sefydliad ariannu.

Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol - yn pennu'r polisïau ar gyfer cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Cânt eu harwain gan gydbwyllgorau corfforedig.

Asesiad effaith statudol (neu reoleiddiol) – mae gofynion deddfwriaethol hefyd ar gyfer asesiadau effaith, gan gynnwys asesiadau o'r effaith amgylcheddol, asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth, asesiadau rheoliadau cynefinoedd, asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Gall data o'r rhain lywio'r arfarniad llesiant integredig. Bydd p'un a oes angen y rhain yn dibynnu ar natur benodol y rhaglen neu'r prosiect.

Egwyddor datblygu cynaliadwy – o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Dulliau trafnidiaeth cynaliadwy – mathau o drafnidiaeth sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio, gan gynnwys cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, a cherbydau allyriadau isel neu ddi-allyriadau.

Hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy – yn llywio penderfyniadau am fuddsoddiadau mewn trafnidiaeth. Mae'n rhoi blaenoriaeth i gynnal, rheoli a diogelu'r seilwaith presennol ar gyfer y dyfodol. Lle mae angen seilwaith newydd, mae'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus ac yna cerbydau allyriadau isel iawn ac yn olaf cerbydau preifat. Mae wedi'i nodi yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Arweiniad ar Ddadansoddi Trafnidiaeth yr Alban (Scot-TAG) – arweiniad i ymarferwyr trafnidiaeth sy'n gweithio ar brosiectau trafnidiaeth yn yr Alban. Yn cynnwys canllawiau ar arfarnu trafnidiaeth.

Arweiniad ar Ddadansoddi Trafnidiaeth (TAG) – arweiniad i ymarferwyr trafnidiaeth a ddarperir gan Lywodraeth y DU ar brosiectau trafnidiaeth sy'n cynnwys canllawiau ar arfarnu trafnidiaeth.

Arfarnu trafnidiaeth – y broses o arfarnu opsiynau ar gyfer rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth. Mae'n ymdrin â phob un o'r camau yn y broses, o wneud yr achos dros newid i ddatblygu opsiynau, cyflawni, a monitro a gwerthuso. Weithiau fe'i gelwir yn ddadansoddiad trafnidiaeth.

Damcaniaeth newid – disgrifiad o sut a pham y disgwylir i newid penodol ddigwydd. Wrth arfarnu trafnidiaeth, gallwch ei defnyddio fel rhan o'r achos cychwynnol dros newid.

Trafnidiaeth – yn cyfeirio yma at yr holl ddulliau trafnidiaeth gwahanol, gan gynnwys cerdded a beicio, bysiau, rheilffyrdd, ffyrdd, tacsis a cherbydau gwasanaeth cyhoeddus, cludo llwythi a logisteg, trafnidiaeth forol, a hedfanaeth.

Rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth – mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau newydd a gynlluniwyd i fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth ac i helpu i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Maent yn cynnwys prosiectau unigol neu becynnau o waith, yn ogystal â rhaglenni a pholisïau mwy strategol. Gallant gynnwys unrhyw ddull trafnidiaeth, ac maent yn cynnwys materion cynllunio, gwasanaethau, seilwaith, mesurau newid ymddygiad, neu fesurau eraill nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth a gynlluniwyd i fynd i'r afael â materion trafnidiaeth.

Meini prawf gwerth am arian – mae gwerth am arian yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae prosiect – gan gynnwys ei fuddion ac effeithiau cyhoeddus ehangach – yn cynrychioli elw da ar fuddsoddiad cyhoeddus. Yng Nghymru, dangosir gwerth am arian drwy fodloni'r pum maen prawf gwerth am arian ar gyfer prosiectau trafnidiaeth – cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheolaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – deddfwriaeth sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi gweledigaeth genedlaethol gyffredin ar gyfer llesiant sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf gyflawni datblygu cynaliadwy gyda'r nod o gyflawni nodau llesiant.

Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) – fframwaith ar gyfer asesu effaith a manteision ymyriadau trafnidiaeth arfaethedig a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyd-fynd â pholisi a blaenoriaethau deddfwriaeth Cymru.

Uchelgeisiau llesiant Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – mae'r pedwar uchelgais llesiant hirdymor yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru fel a ganlyn: yn dda i bobl a lleoedd, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i leoedd a'r economi, ac yn dda i ddiwylliant a'r Gymraeg. Maent yn adlewyrchu'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae amcanion llesiant manylach o dan bob uchelgais.

Fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – mae hwn yn fframwaith o chwe mesur allweddol a 27 o fesurau atodol a ystyrir yn bwysicaf wrth gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a chyflawni newid dulliau teithio a lleihau allyriadau carbon. Mae'n cael ei gyhoeddi gan Trafnidiaeth Cymru a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Blaenoriaethau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – caiff y pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru eu hategu gan dair blaenoriaeth pum mlynedd o hyd, sef dod â gwasanaethau'n agosach at bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio, caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau trafnidiaeth a seilwaith hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon, ac, yn drydydd, annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

Deddfwriaeth a pholisïau perthnasol yng Nghymru

Mae'r dogfennau a ganlyn yn arbennig o berthnasol i gynllunio a pholisi trafnidiaeth yng Nghymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – mae WelTAG yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y nodau a'r ffyrdd o weithio. Mae canllawiau WelTAG yn dangos i chi sut i wneud hyn ar gyfer trafnidiaeth. Mae angen ystyried y pum ffordd o weithio ym mhob cam o'r broses. Rhaid i elfen 'llesiant' yr achos busnes llawn ddeall effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol posibl cynllun a dangos sut yr aethpwyd i'r afael â'r materion hynny wrth ddylunio'r cynllun.

Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 – mae'r strategaeth hon yn gosod yr uchelgeisiau a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Caiff ei hategu gan naw cynllun bach ar gyfer pob dull teithio neu sector. Mae Llwybr Newydd yn cyd-fynd yn agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae angen i ymyriadau trafnidiaeth unigol alinio â'r uchelgeisiau a blaenoriaethau cenedlaethol, ac mae'r arweiniad WelTAG hwn yn eich helpu i wneud hyn.

Cymru Sero Net – mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i fod yn ddi-garbon erbyn 2050. Mae trafnidiaeth yn ffynhonnell sylweddol o nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Cymru Sero Net yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r bennod ar drafnidiaeth yn nodi targed i leihau milltiroedd a deithir gan yrwyr car 10% y pen erbyn 2030. Mae'n adlewyrchu'r ymrwymiadau eraill yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, gan gynnwys gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth a tharged mwy penodol ar newid dulliau teithio i helpu i gyflawni hynny. Mae'n nodi hierarchiaeth drafnidiaeth sy'n blaenoriaethu buddsoddiad mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau di-allyriadau dros geir preifat.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer teithio llesol yn eu hardaloedd. Mae hefyd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau priffyrdd i "gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr … wrth gyflawni eu swyddogaethau: (…) creu, cynnal a chadw a gwella priffyrdd, ymyrryd â phriffyrdd a chaffael tir ac ati (adran 9 (1))." Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylid ystyried teithio llesol yng nghyd-destun yr holl ymyriadau trafnidiaeth, nid dim ond wrth gynllunio cynlluniau teithio llesol penodedig.

Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol – canllawiau Llywodraeth Cymru ar deithio llesol sy'n nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol a Gweinidogion, y gofynion polisi a deddfwriaethol, ac egwyddorion rhwydwaith. Maent yn cynnwys canllawiau manwl ar ddatblygu mapiau rhwydwaith teithio llesol ac ar anghenion defnyddwyr, yn ogystal ag ar lwybrau a chysylltiadau.

Polisi Cynllunio Cymru – mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Mae'n sail i benderfyniadau cynllunio a gwneud cynlluniau ar bob lefel. Mae'n nodi'r polisi cenedlaethol ar gyfer creu lleoedd actif a chymdeithasol, gan fabwysiadu ymagwedd creu lleoedd at ddatblygu, gan gynnwys darparu seilwaith, ac yn nodi'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy (a adlewyrchir hefyd yn Llwybr Newydd). Mae hon yn arwain cynlluniau datblygu strategol a lleol. PPW11 yw'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru, ac ategir hyn gan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 – Trafnidiaeth, sy'n darparu canllawiau cynllunio manwl.

Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 – cyhoeddwyd yn 2020, mae'r cynllun datblygu cenedlaethol hwn yn gosod blaenoriaethau ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru – hynny yw, ble y dylid lleoli datblygiad. Mae cysylltiad agos rhwng cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir. Mae Llwybr Newydd eisoes yn cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol ar lefel genedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi y dylai datblygiadau newydd arwyddocaol gael eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd, gyda mynediad da ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r dref neu ddinas gyfan ac oddi yno (tudalen 71), ac y dylid adeiladu datblygiadau newydd mewn lleoliadau cynaliadwy a'u cefnogi gan seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus (tudalen 80).

Cynlluniau datblygu strategol a lleol – mae'r rhain yn gynlluniau datblygu haen ranbarthol a lleol. Mae cynlluniau datblygu lleol yn nodi cynigion a pholisïau'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardaloedd yn y dyfodol. Mae cynlluniau datblygu strategol yn gynlluniau datblygu ar raddfa ranbarthol sydd wedi'u cyflwyno i ymdrin yn fwy effeithiol â materion trawsffiniol a chyflawni canlyniadau cynllunio gwell.

Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol – bydd y rhain yn cysylltu blaenoriaethau datblygu rhanbarthol â blaenoriaethau cynllunio rhanbarthol ac yn gosod y fframwaith ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth unigol, gan ystyried Llwybr Newydd a Dyfodol Cymru 2040.

Y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth – yn nodi cynlluniau penodol ar gyfer sut y bydd gwariant Llywodraeth Cymru yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau ac uchelgeisiau Llwybr Newydd.

Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru – yn nodi buddsoddiadau arfaethedig ar draws y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys prosiectau sydd â chyfanswm gwerth cynllun o dros £15 miliwn. Ar gyfer trafnidiaeth, mae'n nodi manylion prosiectau arfaethedig a phresennol, yn ogystal â'r cynlluniau grant trafnidiaeth unigol yng Nghymru.

Y Rhaglen Lywodraethu – mae pob llywodraeth newydd yng Nghymru yn gosod rhaglen lywodraethu newydd. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 yn pennu blaenoriaethau'r llywodraeth gyfan.

Polisïau trafnidiaeth mwy diweddar

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cyflawni cynlluniau mwy penodol ar gyfer dulliau neu bynciau trafnidiaeth unigol yng Nghymru, fel ein Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a gwaith ar ddiwygio bysiau.

Darllen pellach

Swyddfa'r Cabinet, 2020. *The Construction Playbook*.

Dal, A., Tsang, F., a Rohr, C. (2014). The value of small time savings for non-business travel. Journal of Transport Economics and Policy, 48 (2):205-218.

Yr Adran Drafnidiaeth, 2021. *Transport Business case Guidance*.

Yr Adran Drafnidiaeth, 2021. *Transport Analysis Guidance*.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad). Arweinyddiaeth a gweithrediad y Ddeddf – Newid ein diwylliant sector cyhoeddus.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad). *Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau.*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad). Tri Gorwel: pecyn cymorth i'ch helpu i feddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad). Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau. https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/11/FGCW-Framework_Welsh.pdf Government Office for Science, 2019.

Hills, D. a Junge, K., 2010. Guidance for Transport Impact Evaluations – choosing an evaluation approach to achieve better attribution. Sefydliad Tavistock mewn ymgynghoriad ag AECOM ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth.

Hills, D. Logic mapping: Hints and tips for better transport evaluations. Datblygwyd gan Sefydliad Tavistock. Llundain: Yr Adran Drafnidiaeth.

Trysorlys EF, 2020. Y Llyfr Magenta. Canllawiau EF ar yr hyn i'w ystyried wrth ddylunio gwerthusiad.

Trysorlys EF, 2020. Y Llyfr Gwyrdd 2022.

Trysorlys EF, 2020. Green book supplementary guidance: climate change and environmental valuation.

Trysorlys EF, 2022. Managing public money

Network Rail, 2021. PACE (Cyflymu Prosiect mewn Amgylchedd Rheoledig)

Cyfranogiad Cymru, 2011. Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Ystadegau Cymru (dim dyddiad). Data Trafnidiaeth

Trafnidiaeth Cymru (dim dyddiad), Modelau Trafnidiaeth Rhanbarthol Cymru.

Trafnidiaeth Cymru – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau monitro ac adroddiad technegol https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro

Transport for Scotland (dim dyddiad). Scottish Transport Analysis Guide (Scot-TAG).

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Ffyrdd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2021/01/GGC-5-ffordd-o-weithio.pdf

Panel Adolygu Ffyrdd Cymru, 2023. Dyfodol buddsoddiad ffyrdd yng Nghymru https://www.llyw.cymru/dyfodol-buddsoddiad-ffyrdd-yng-nghymru

Llywodraeth Cymru, 2008. Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2017. Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2020. Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru

Llywodraeth Cymru, 2021. Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.

Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru Sero Net – ein hail gynllun lleihau allyriadau ar gyfer Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025).

Llywodraeth Cymru, 2021. Polisi Cynllunio Cymru – ein polisi cenedlaethol sy'n amlinellu'r canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.

Llywodraeth Cymru, 2021. Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021

Llywodraeth Cymru, 2023. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd.
https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-ir-adolygiad-ffyrdd-html

Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027
https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflawni-cenedlaethol-ar-gyfer-trafnidiaeth-2022-i-2027

Llywodraeth Cymru, 2023.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015